

Adroddiad ar ôl-arolygiad byr a dirybudd
o'r

Uned Pobl Ifanc

yn Sefydliad Troseddwyr

Ifanc a Charchar EM Parc

14 - 17 Medi 2010

gan Brif Arolygydd Carchardai EM

Hawlfraint y Goron 2011

Argraffwyd a chyhoeddwyd gan:
Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi
1st Floor, Ashley House
Monck Street
Llundain SW1P 2BQ
Lloegr

Cynnwys

	Rhagarweiniad	5
	Tudalen ffeithiau	7
1	Asesiad carchar iach	9
2	Cynnydd ers yr adroddiad diwethaf	17
3	Crynodeb o'r argymhellion	45
	Atodiadau	
	I Y tîm arolygu	48
	II Proffil o boblogaeth y carchar	49
	III Crynodeb o'r holiaduron a'r cyfweiliadau	54

Rhagarweiniad

Mae Sefydliad Troseddwyr Ifanc a Charchar EM Parc yn garchar hyfforddi a sefydliad troseddwyr ifanc categori B ger Pen-y-bont ar Ogwr, ac yn cael ei redeg gan G4S. Roedd yr ôl-aroelygiad hwn yn canolbwyntio'n unig ar uned 64 gwely Parc i bobl ifanc ar remand ac wedi eu dedfrydu – yr unig uned pobl ifanc o'i math yng Nghymru. Yn ganmoladwy, gwelodd yr aroelygiad hwn fod cynnydd parhaus wedi'i wneud ar yr uned: roedd yn parhau i fod yn lle diogel a boddhaol, gydag ystod estynedig o weithgareddau a threfniadau gwell ar gyfer adsefydlu ac ail-integreiddio.

Roedd Uned Pobl Ifanc Parc yn parhau i ddarparu amgylchedd diogel i'r rhai a oedd dan ei gofal. Roedd diwrnodau cynnar yn cael eu rheoli'n foddhaol, roedd y trefniadau diogelu ac amddiffyn plant ar y cyfan yn effeithiol, nid oedd bwlio'n broblem ddifrifol, ac roedd pawb a oedd mewn perygl o hunan-niwed yn derbyn gofal da. Roedd diogelwch yn gytbwys, roedd y defnydd o rym yn parhau i fod yn isel ac ychydig iawn o gamddefnyddio sylweddau oedd yno. Mewn cyd-destun mor gadarnhaol, roedd yn siomedig bod yr uned iechyd oedolion yn parhau i gael ei defnyddio i gadw pobl ifanc a wahanwyd, ac nid oedd ei lleoliad na'i chylfndrefn yn addas i ddelio gyda'r achosion anodd hyn.

Roedd y trefniadau llety'n parhau i fod yn dda a gwelsom ryngweithio cadarnhaol rhwng y staff a'r bobl ifanc, gan gynnwys bwyta gyda'i gilydd. Roedd amrywiaeth yn awr yn cael ei reoli'n well yno ond roedd sgôp i ymgynghori'n well gyda phobl ifanc dduon a lleiafrifol ethnig. Roedd y gaplaniaeth yn darparu gwasanaeth da. Roedd gofal iechyd yn dioddef o brinder staff ond roedd gwelliant sylweddol wedi bod yn y gwasanaethau iechyd meddwl.

Roedd y bobl ifanc yn Parc bellach yn treulio mwy o amser allan o'u celloedd gyda mynediad parod ac estynedig at raglenni addysg a hyfforddiant galwedigaethol. Roedd prydlondeb ac ymddygiad yn y gwersi wedi gwella. Roedd ymdrechion neilltuol bellach i helpu rhai gydag anghenion dysgu cymhleth. Roedd hefyd yn canolbwyntio ar helpu'r bobl ifanc i ddod yn ymwybodol o'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig. Roedd y llyfrgell wedi gwella ond roedd mynediad yn parhau i fod yn gyfyngedig. Roedd Ymarfer Corff yn boblogaidd ond nid oedd llawer o gyfle i ennill achrediad.

Roedd rheoli adsefydlu wedi gwella'n arw, gyda pholisi newydd yn seiliedig ar ddadansoddiad cynhwysfawr o angen. Roedd cynllunio hyfforddiant yn effeithiol a chysylltiadau gyda'r timau troseddwyr ifanc yn parhau i fod yn gryf. Roedd cyswllt gyda theluoedd a ffrindiau wedi gwella, a gwaith cymorth da i deuluoedd. Roedd ystod o gymorth i ail-integreiddio ar gael, gan gynnwys defnydd da o ryddhad ar drwydded dros dro, ynghyd ag ymyriadau effeithiol i roi sylw i broblemau fel camddefnyddio sylweddau.

Mae Uned Pobl Ifanc Parc wedi parhau i ddatblygu a gwella ers yr aroelygiad diwethaf. Roedd y bobl ifanc yn teimlo'n ddiogel ac roedd yr uned yn cynnig amgylchedd boddhaol. Roedd y bobl ifanc yn treulio mwy o amser allan o'u celloedd ac roedd ystod ehangach o weithgareddau. Roedd y trefniadau i adsefydlu ac ail-integreiddio'r bobl ifanc wedi gwella'n arw. Ar y cyfan, mae'r rhain yn ddatblygiadau canmoladwy sy'n cadarnhau bod yr unig sefydliad dan glo i bobl ifanc yng Nghymru ymhlith y gorau yn y system garchardai.

Nick Hardwick
Prif Arolygydd Carchardai EM

Tachwedd 2010

Tudalen ffeithiau

Tasg y sefydliad

Mae Carchar EM a Sefydliad Troseddwy Ifanc Parc yn garchar categori B i oedolion a gafwyd yn euog, i droseddwy ifanc a gafwyd yn euog ac sydd ar remand, ac i bobl ifanc a gafwyd yn euog ac sydd ar remand. Mae gan Parc gapasiti gweithredol o 1,138 o garcharorion, fel a ganlyn:

Oedolion	597
Troseddwy ifanc	362
Pobl Ifanc	64
Carcharorion Rheol 45	115

Ardal weithredol y Gwasanaeth Carchardai

Parc yw'r unig garchar preifat yng Nghymru ac mae'n cael ei redeg gan G4S.

Y nifer a gedwir yn yr uned pobl ifanc

64

Llety arferol ardystiedig

64

Capasiti gweithredol

64

Dyddiad yr arolygiad llawn diwethaf

Mehefin 2009

Hanes byr

Agorodd yr uned pobl ifanc fel uned remand gyda chapasiti o 28 o welyau yn 2002 cyn ehangu i 36 o welyau gyda chyfuniad o bobl ifanc ar remand ac wedi eu dedfrydu. Ym mis Chwefror 2007, ehangodd yr uned i 64, eto ar gyfer pobl ifanc ar remand ac wedi eu dedfrydu.

Disgrifiad byr o'r unedau preswyl

Mae'r uned pobl ifanc wedi ei rhannu'n ddwy adain, E1 a G1. Mae gan G1 24 o gelloedd, 12 o rai sengl a 12 o rai dwbl, ac mae'n dal 36 o bobl ifanc. Mae gan E1 22 o gelloedd, 16 o rai sengl a 6 o rai dwbl, ac mae'n dal 28 o bobl ifanc.

Adran 1: Asesiad carchar iach

Rhagarweiniad

HP1 Pwrpas yr arolygiad hwn oedd ôl-ddilyn yr argymhellion a wnaed yn ein harolygiad llawn diwethaf yn 2009 ac edrych ar y cynnydd a wnaed. Rydym wedi gwneud sylwadau ar y pethau sydd wedi gwella'n arw ac ar y pethau lle credwn fod ychydig neu ddim cynnydd wedi'i wneud a lle mae gwaith pellach eto i'w wneud. Mae'r adroddiadau arolygu i gyd yn cynnwys crynodeb o berfformiad y sefydliad yn erbyn y model o garchar iach. Y pedwar maen prawf ar gyfer carchar iach yw:

Diogelwch: bod carcharorion, hyd yn oed y rhai mwyaf agored i niwed, yn cael eu cadw'n ddiogel.

Parch: bod carcharorion yn cael eu trin gyda pharch i'w hurddas fel pobl

Gweithgareddau i bwrpas: bod carcharorion yn gallu, a disgwylir iddynt, gymryd rhan mewn gweithgaredd sy'n debygol o fod o fudd iddynt

Adsefydlu: bod carcharorion yn cael eu paratoi ar gyfer eu rhyddhau i'r gymuned a'u helpu i leihau unrhyw debygolrwydd y byddant yn aildroseddu.

HP2 O dan bob prawf, rydym yn gwneud asesiad o'r canlyniadau i'r carcharorion ac, felly, o berfformiad cyffredinol y sefydliad yn erbyn y prawf. Mewn rhai achosion, effeithir ar y perfformiad hwn gan faterion sydd y tu allan i reolaeth uniongyrchol y sefydliad, a lle mae angen i'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr roi sylw iddynt.

- mae'r canlyniadau ar gyfer carcharorion yn dda yn erbyn y prawf carchar iach hwn.

Nid oes unrhyw dystiolaeth bod y canlyniadau i garcharorion yn cael eu heffeithio'n andwyol mewn unrhyw faes pwysig.

- mae'r canlyniadau ar gyfer carcharorion yn weddol dda yn erbyn y prawf carchar iach hwn.

Mae dystiolaeth o ganlyniadau andwyol i garcharorion mewn rhai meysydd yn unig. Ar gyfer y mwyafrif, nid oes unrhyw bryderon mawr. Mae gweithdrefnau i ddiogelu canlyniadau yn eu lle.

- nid yw'r canlyniadau ar gyfer carcharorion yn ddigon da yn erbyn y prawf carchar iach hwn.

Mae dystiolaeth bod y canlyniadau ar gyfer carcharorion yn cael eu heffeithio'n andwyol mewn sawl maes neu yn enwedig yn y meysydd hynny sydd bwysicaf i les y carcharorion. Mae problemau / pryderon, os na roddir sylw iddynt, yn debygol o ddod yn feysydd o bryder difrifol.

- mae'r canlyniadau ar gyfer carcharorion yn wael yn erbyn y prawf carchar iach hwn.

Mae dystiolaeth bod y canlyniadau i garcharorion yn cael eu heffeithio'n ddifrifol gan yr arferion presennol. Mae'r carchar yn methu â sicrhau hyd yn oed driniaeth foddhaol a

/ neu amodau boddhaol i'r carcharorion. Mae angen cymryd camau ar unwaith i gywiro hyn.

HP3 Mae'r Arolygiaeth hon yn cynnal ôl-arolygiadau dirybudd i asesu'r cynnydd a wnaed yn erbyn argymhellion a wnaed yn yr arolygiad llawn blaenorol. Mae ôl-arolygiadau yn gymesur i'r risg a gyflwynir. Cynhelir ôl-arolygiadau byr lle mae'r arolygiad llawn blaenorol a'n systemau gwybodaeth ni'n awgrymu bod yna nifer gymharol lai o bryderon. Mae digon o amser yr arolygwyr yn cael ei ddyrannu i arolygu'r cynnydd a, lle bo angen, i nodi meysydd o bryder ychwanegol i'r arolygwyr sylwi arnynt. Mae'r arolygwyr yn llunio crynodeb carchar iach byr yn nodi cynnydd y sefydliad yn y meysydd a arolygwyd. O'r dystiolaeth sydd ar gael, daethant hefyd i'r casgliad a oedd y cynnydd hwn yn cadarnhau neu'n golygu bod angen newid yr asesiad carchar iach a wnaed gan yr Arolygiaeth o bob sefydliad ond a gyhoeddwyd ond ers dechrau 2004.

Diogelwch

- HP4 Yn ein harolygiad yn 2009, gwelsom fod yr uned pobl ifanc yn Parc yn perfformio'n weddol dda yn erbyn y prawf carchar iach hwn. Gwnaethom 39 o argymhellion yn y maes hwn, ac o'r rhain mae 28 wedi eu cyflawni, saith wedi eu cyflawni'n rhannol a phedwar heb gael eu cyflawni. Rydym wedi gwneud dau argymhelliad pellach.
- HP5 Roedd llawer llai o achosion o bobl ifanc yn teithio gydag oedolion ac roedd systemau monitro y gwasanaeth hebrwng yn effeithlon. Nid oedd pobl ifanc a oedd yn cyrraedd yn ystod y dydd yn gorfod aros mewn cerbydau dros amser cinio mwyach. Roedd ymdrechion da yn cael eu gwneud i gysylltu gyda'r timau troseddwr ifanc ac i roi gwybodaeth ysgrifenedig a llafar iddynt am Parc er mwyn rhoi'r wybodaeth yma i'r bobl ifanc a anfonwyd i Parc o'r llys. Felly, roedd yn bur siomedig yn ein harolwg¹ mai dim ond 2% o'r bobl ifanc a ddywedodd eu bod wedi derbyn gwybodaeth am yr uned cyn iddynt gyrraedd.
- HP6 Cawsom fod y gweithdrefnau derbyn a noson gyntaf yn drylwyr o hyd, gyda phwyslais priodol ar ddiogelwch, er yn ein harolwg roedd y bobl ifanc yn canmol llai ar eu triniaeth wrth gael eu derbyn nag yn yr arolwg blaenorol. Roedd y prosesau cynefino yn gynhwysfawr ac roedd y llawlyfrau cynefino'n adnodd da i'r bobl ifanc a'u teuluoedd i ateb eu cwestiynau am yr uned.
- HP7 Roedd amrywiaeth o ddata ar ddiogelu'n cael ei gasglu, ond roedd y dadansoddiad o'r data i'r pwyllgorau diogelu yn anfoddfaol a dal yn rhoi sylw annigonol i'r anafiadau oedd y bobl ifanc yn eu dioddef. Roedd Gwasanaethau Cymdeithasol Pen-y-bont ar Ogwr yn mynychu cyfarfodydd pwyllgor yn gyson, ond roedd presenoldeb aelodau o'r pwyllgor diogelu mewnol yn aml yn isel. Nid oedd unrhyw gynnydd wedi bod gyda'r broblem hirsefydlog o gyllid ar gyfer swyddi gwaith cymdeithasol. Roedd agweddau ar

¹ **Methodoleg yr arolwg:** Mae yna bump prif ffynhonnell o dystiolaeth mewn arolwg: arsylwi; holi'r carcharorion drwy arolwg; trafod gyda'r carcharorion; trafod gyda'r staff a thrydydd partion perthnasol; a dogfennau neu waith papur. Yn ystod arolwg, defnyddiwn ddulliau cymysg o gasglu data, a methodolegau ansoddol a meintiol. Mae'r holl ddarganfyddiadau a'r dyfarniadau yn cael eu triogli, sy'n cynyddu dilysrwydd y data a gasglwyd. Mae canlyniadau arolwg yn dangos cyd-ymateb (mewn canrannau) y carcharorion yn y sefydliad sy'n cael ei arolygu, mewn cymhariaeth â chyd-ymateb (mewn canrannau) y carcharorion yn y carchardai tebyg (y ffigur cymharol). Lle mae'r adroddiad yn cyfeirio at gymhariaeth rhwng y ddwy set yma o ffigurau, mae'r rhain yn ymwneud â gwahaniaethau ystadegol bwysig yn unig. Defnyddir arwyddocâd ystadegol i asesu pa mor debygol y mae gwahaniaeth rhwng dwy sampl yn awgrymu gwir wahaniaeth rhwng y poblogaethau yn y samplau, yn hytrach na'i fod yn wahaniaeth ar hap yn unig. Os yw canlyniad yn annhebygol iawn o fod wedi digwydd ar hap, dywedwn fod ganddo 'arwyddocâd ystadegol'. Gosodir y lefel arwyddocâd ar 0.05, sy'n golygu mai dim ond 5% o siawns sydd bod y gwahaniaeth rhwng y canlyniadau yn un ar hap. (Addaswyd o'r *Dictionary of Forensic Psychology*: Arolygiaeth Carchardai EM.)

y rôl wedi cael eu hysgwyddo'n egnïol gan nifer o staff yn Parc, gan gynnwys y rheolwr diogelu, y gweithiwr cymorth teulu a'r eiriolwyr, ac i raddau helaeth roedd hyn wedi lliniaru'r diffyg gwasanaeth i bobl ifanc o ganlyniad.

- HP8 Roedd y gweithdrefnau amddiffyn plant yn parhau i fod yn effeithlon fel rhan o berthynas waith dda gyda Gwasanaethau Plant Pen-y-bont ar Ogwr. Roedd yr ychydig wendidau gweithdrefnol inni dynnu sylw atynt yn flaenorol wedi cael eu datrys.
- HP9 Roedd y bobl ifanc inni siarad gyda nhw yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel ac, yn ein harolwg, dim ond 10% o'r bobl ifanc ddywedodd eu bod wedi teimlo'n anniogel o gwbl yn Parc, erbyn ffigur cenedlaethol cymharol o 29%. Roedd y staff i gyd wedi cael eu hyfforddi yn y strategaeth lleihau trais newydd. Roedd cyfarfod y bore'n fforwm hynod effeithiol i ddiweddarau pawb a ddaeth iddo ynghylch materion bwlio. Nid oedd bwlio'n ymddangos i fod yn broblem ddifrifol ac roedd y staff yn effro iddo ac yn sydyn i ymateb pan oedd yn digwydd. Roedd gan bobl ifanc hyder y byddai'r staff yn cymryd y camau priodol. Roedd cynlluniau rheoli ymddygiad trylwyr yn cael eu cynhyrchu i ddelio gyda bwllis ac i gefnogi dioddefwyr.
- HP10 Roedd y digwyddiadau o hunan-niwed yn rhai mân. Dywedodd y bobl ifanc a oedd yn destun monitro asesu, gofal dan glo a gwaith tîm (ACCT) inni siarad â nhw eu bod yn teimlo bod y carchar yn gofalu amdanynt yn dda. Roedd adolygiadau o ACCT wedi cael eu cyflawni'n dda ac roedd systemau sicrhau ansawdd gwell wedi arwain at fwy o barhad i staff wrth gadeirio'r adolygiadau. Roedd cynlluniau gofal yn awr yn cael eu diweddarau'n gyson ac roedd y cofnodion arsylwi inni edrych arnynt yn drylwyr. Roedd y cyfraniadau ysgrifenedig ar y ffeiliau'n awgrymu bod gan y staff ddealltwriaeth dda o anghenion y bobl ifanc yr oeddent yn eu monitro.
- HP11 Roedd y chwilio corfforol yn parhau i fod ar sail gwybodaeth ac yn destun asesiad risg. Ar y cyfan, roedd y mesurau diogelwch yn gymesur. Roedd ein pryderon blaenorol ynghylch pobl ifanc yn dod i gysylltiad ag oedolion yn y gampfa wedi derbyn sylw.
- HP12 Roedd mân adroddiadau dal ddim yn cael eu defnyddio'n ddigonol. Roedd y broses ddyfarnu'n cael ei chyflawni'n dda ac roedd eiriolwyr yn awr yn chwarae rôl adeiladol i helpu'r bobl ifanc drwy'r broses. Roedd y dogfennau dyfarnu safonol wedi cael eu gwneud yn fwy priodol i oedran.
- HP13 Roedd pwyslais cryf ar geisio tawelu sefyllfaoedd o wrthdaro ac roedd y defnydd o rym yn parhau i fod yn isel. Roedd camera fideo yn awr yn cael ei ddefnyddio i ffilmio symud a drefnwyd ymlaen llaw ac roedd archwiliadau sicrhau ansawdd cyson yn cael eu cyflawni ar y dogfennau defnyddio grym.
- HP14 Roedd llywodraethu gwahanu wedi gwella. Roedd y defnydd o wahanu'n cael ei fonitro gan y pwyllgor diogelu mewnol ond roedd angen dadansoddi'r data'n fwy manwl. Roedd yr uned gofal iechyd i oedolion dal yn cael ei defnyddio i ynysu pobl ifanc anodd iawn. Nid oedd cynlluniau rheoli ymddygiad yn cael eu defnyddio fel mater o drefn ar gyfer y bobl ifanc anoddaf hyn. Roedd y lleoliad anaddas a'r system gyfyngedig yn parhau i wneud hyn yn drefniant amhriodol.
- HP15 Roedd dau nyrs camddefnyddio sylweddau wedi cael eu penodi ers yr arolygiad blaenorol ac roedd dau o'r meddygon wedi eu hyfforddi mewn rheoli defnyddio sylweddau. Ni chafwyd unrhyw brofion cyffuriau positif yn y ddau fis blaenorol.

- HP16 Ar sail yr ôl-arolygiad byr hwn, roeddem yn credu bod y canlyniadau i'r bobl ifanc yn weddol dda yn erbyn y prawf carchar iach hwn,

Parch

- HP17 Yn ein harolygiad blaenorol, gwelsom fod yr uned pobl ifanc yn Parc yn perfformio'n weddol dda yn erbyn y prawf carchar iach hwn. Gwnaethom 44 o argymhellion yn y maes hwn, ac o'r rhain roedd 25 wedi eu cyflawni, 10 wedi eu cyflawni'n rhannol a naw heb gael eu cyflawni. Rydym wedi gwneud pedwar argymhelliad pellach.
- HP18 Roedd y ddwy adain breswyl yn lân a thaculus a'r manau cyhoeddus yn cael eu cadw'n dda. Roedd awyru gwael mewn rhai o'r celloedd yn dal i fod yn broblem ac nid oedd gan y toiledau sgriniau preifatrwydd.
- HP19 Er gwaethaf canlyniadau ein harolwg, a ddangosodd ddirywiad sylweddol mewn rhai agweddau ar y berthynas gyda'r staff ers yr arolwg blaenorol, wrth arsylwi gwelsom dystiolaeth gyson o gyd-barch a rhyngweithio da. Roedd cyfarfodydd y fforwm pobl ifanc wedi gwreiddio ac yn effeithiol.
- HP20 Roedd y gweithwyr allweddol yn awr, fel mater o drefn, yn cyflwyno eu hunain yn fuan iawn a dangosodd y cofnodion a welsom fod ganddynt gyswllt rheolaidd ynghyd ag ôl-gysylltu gyda'r bobl ifanc i drafod unrhyw broblemau. Yn ôl y cofnodion, roedd gwybodaeth dda am y bobl ifanc a'u hamgylchiadau. Roedd felly'n drueni bod gweithwyr allweddol yn parhau i fod yn absennol o lawer o'r cyfarfodydd i drafod gofal y bobl ifanc yr oeddent yn gyfrifol amdanynt.
- HP21 Bwyta allan oedd y norm o hyd ac roedd staff yn awr yn cyd-fwyta'n rheolaidd gyda'r bobl ifanc. Roedd digon o fwyd gan gynnwys ffrwythau a salad ffres ynghyd â byrbryd gyda'r nos ond roedd y bobl ifanc yn dweud wrthym yn gyson nad oeddent yn hoffi'r bwyd ac roedd hyn wedi'i adlewyrchu yn ein harolwg.
- HP22 Nifer fach o gwynion ysgrifenedig ffurfiol oedd yn cael eu gwneud, ac roeddent wedi lleihau o bron i 50%. Roedd eiriolwyr yn chwarae rôl bwysig yn cefnogi'r bobl ifanc. Roedd system sicrhau ansawdd wedi cael ei chyflwyno i wella'r broses o reoli cwynion gyda phob cwyn yn cael ei archwilio am bryderon diogelu yn y cyfarfod diogelu. Er gwaethaf y feirniadaeth yn ein harolwg ynghylch yr oedi wrth ddelio gyda chwynion, dangosodd y cofnodion eu bod yn cael sylw parod.
- HP23 Roedd polisi amrywiaeth penodol ar gyfer pobl ifanc wedi cael ei ddatblygu a oedd yn rhoi sylw penodol i wladolion tramor. Roedd cysylltiadau da rhwng yr uned a thîm amrywiaeth y prif garchar, ond roedd cynrychiolaeth yn y cyfarfodydd amrywiaeth yn anghyson. Roedd y gwaith o gasglu data monitro SMART wedi gwella ac roedd yn awr yn uned-benodol. Roedd rheolwyr yr uned wedi cael eu hyfforddi i ymchwilio i adrodd digwyddiadau hiliol ac roedd prosesau sicrhau ansawdd mewnol ac allanol wedi cael eu cyflwyno. Roedd pobl ifanc a oedd yn cyflwyno ffurflenni adrodd digwyddiadau hiliol hefyd yn cael eu gweld gan y swyddog cydraddoldeb hiliol i gynnig cymorth a chefnogaeth ychwanegol. Nid oedd dal unrhyw gynrychiolwyr amrywiaeth pobl ifanc.
- HP24 Roedd capel a chanolfan ffydd newydd wych yno, a oedd ar gael i'r rhan fwyaf o'r bobl ifanc addoli ynddynt, er bod gwasanaethau Catholig yn cael eu cynnal yn yr

uned. Er bod caplan blaenorol y bobl ifanc wedi gadael, roedd tîm y gaplaniaeth yn parhau i fod ar gael i gynig cefnogaeth ysbrydol a bugeiliol i'r bobl ifanc.

- HP25 Roedd dadansoddiad diweddar o anghenion iechyd wedi'i wneud a thafenni plentyn-benodol ar wybodaeth gofal iechyd wedi cael eu cynhyrchu. Roedd y gwasanaethau iechyd yn dioddef o brinder staff nyrsio ar draws y sefydliad ar adeg yr arolygiad. Roedd mynediad da at y Meddyg Teulu. Roedd y gwasanaethau gofal sylfaenol, gan gynnwys deintyddol, yn parhau i fod yn dda ar y cyfan. Roedd gwelliant mawr wedi bod gyda darparu gwasanaethau iechyd meddwl ac roedd gwasanaeth iechyd meddwl i blant a phobl ifanc wedi cael ei gyflwyno, yn cynig cymorth gwych i bobl ifanc. Roedd nyrs iechyd meddwl arbenigol ar y safle ac roedd seiciatrydd ymgynghorol a chofrestrydd yn dod yno ddwywaith yr wythnos.
- HP26 Ar sail yr ôl-arolygiad byr hwn, roeddem yn credu bod y canlyniadau i'r bobl ifanc yn parhau i fod yn dda yn erbyn y prawf carchar iach hwn.

Gweithgareddau i bwrpas

- HP27 Yn ein harolygiad blaenorol, gwelsom fod yr uned pobl ifanc yn Parc yn perfformio'n weddol dda yn erbyn y prawf carchar iach hwn. Gwnaethom 19 o argymhellion yn y maes hwn, ac o'r rhain mae 14 wedi eu cyflawni, tri wedi eu cyflawni'n rhannol a dau heb gael eu cyflawni. Ni wnaethom unrhyw argymhellion pellach.
- HP28 Roedd gan y bobl ifanc fwy o amser y tu allan i'w celloedd. Roedd rhai pobl ifanc yn cwyno o ddiflastod wrth gymdeithasu gyda'r nos, ond roedd ymdrechion i wella'r gweithgareddau cyfoethogi'n cael eu gwneud i gywiro hyn, ac roedd gweithiwr ieuencid wedi'i benodi'n ddiweddar. Roedd gan y bobl ifanc fynediad da at le i wneud ymarfer corff y tu allan, oedd wedi gwella'n arw gyda gemâu a chyfarpar ymarfer arbenigol.
- HP29 Roedd rhaglen lawn amser o addysg a / neu hyfforddiant galwedigaethol yn cael ei chynnig i'r bobl ifanc. Roedd mynediad at hyfforddiant galwedigaethol yn foddhaol ac yn sicr o wella yn y dyfodol agos. Roedd lefel dda o hyd o fynychu gweithgareddau. Nid oedd y bobl ifanc mwyach yn cael eu heithrio o addysg am ymddwyn yn wael. Roedd y nifer fach a oedd weithiau'n gwrthod mynychu addysg yn cael ei monitro a chamau prydlon yn cael eu cymryd. Roedd y staff addysg a staff y carchar wedi gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i annog y bobl ifanc i fynychu dosbarthiadau. Roedd prydlondeb wedi gwella ac yn cael ei fonitro'n gyson.
- HP30 Roedd trefniadau diweddar wedi bod i ddefnyddio staff ymyriadau i ddatblygu rhaglenni atodol i helpu pobl ifanc gydag anghenion dysgu mwy cymhleth. Roedd staff yn rheoli ymddygiad y bobl ifanc yn dda ac roedd y mwyafrif o'r bobl ifanc yn ymateb yn dda. Roedd darparu sgiliau sylfaenol wedi gwella, gyda staff yn defnyddio deunyddiau pwrpasol i gynnwys y bobl ifanc.
- HP31 Roedd ystod y cwricwlwm wedi gwella ers yr arolygiad blaenorol ac roedd y cwricwlwm bellach yn gytbwys ac yn ddigon eang.
- HP32 Roedd cyrhaeddiad yn parhau i fod yn dda iawn, gyda mwy na 94% o'r bobl ifanc yn ennill cymhwyster perthnasol ac yn symud ymlaen at lefel uwch.

- HP33 Roedd athrawon yn adolygu targedau dysgu a chynnydd y bobl ifanc yn rheolaidd. Roedd gwybodaeth am gynnydd y bobl ifanc yn cael ei rhannu'n dda o fewn y tîm addysg a rhwng y staff addysg a'r staff gweithredol, gan wella ansawdd y cynlluniau addysg.
- HP34 Roedd darparu gwybodaeth a chyfarwyddyd yn dda ac roedd gan y bobl ifanc fynediad parod at gyngor gyrfaoedd da.
- HP35 Roedd y ddarpariaeth i helpu'r bobl ifanc i ennill ymwybyddiaeth o Gymru, ei diwylliant a'i hiaith, wedi gwella. Roedd cytundeb lefel gwasanaeth ers tro gyda gwasanaeth cyfieithu ac roedd y gweithdrefnau recriwtio staff yn cynnwys targedu siaradwyr Cymraeg.
- HP36 Roedd y defnydd a wnaed o'r llyfrgell wedi cael ei werthuso ac adnoddau defnyddiol ychwanegol wedi cael eu prynu. Roedd y rhain yn cynnwys deunyddiau i gyd-fynd â'r cyrsiau addysg oedd ar gael i'r bobl ifanc. Ond roedd mynediad y bobl ifanc at y llyfrgell yn parhau i fod yn anfoddfaol.
- HP37 Roedd rhai gwelliannau wedi bod gyda darparu addysg gorfforol. Ychydig iawn o bobl ifanc bellach oedd yn gwrthod cymryd rhan mewn addysg gorfforol ac roeddent i gyd yn derbyn eu hawl i ddefnyddio'r gampfa. Roedd rhai o'r bobl ifanc wedi defnyddio'r gampfa i ennill cymhwyster rheoli ffordd o fyw gan Rwydwaith y Coleg Agored. Ond cyfyng o hyd oedd ystod yr achrediau ar gyfer gweithgareddau'r gampfa.
- HP38 Ar sail yr ôl-arolygiad byr hwn, roeddem yn credu bod y canlyniadau i'r bobl ifanc yn awr yn dda yn erbyn y prawf carchar iach hwn,

Adsefydlu

- HP39 Yn ein harolygiad blaenorol, gwelsom fod yr uned pobl ifanc yn Parc yn perfformio'n weddol dda yn erbyn y prawf carchar iach hwn. Gwnaethom 18 o argymhellion yn y maes hwn, ac o'r rhain mae 13 wedi eu cyflawni, a thri heb gael eu cyflawni. Nid oedd dau mwyach yn berthnasol. Gwnaethom un argymhelliad pellach.
- HP40 Roedd gwelliannau sylweddol wedi eu gwneud gyda rheoli adsefydlu. Roedd polisi wedi'i gyhoeddi, dadansoddiad o anghenion da wedi'i wneud ac roedd gwaith adsefydlu yn awr yn cael ei fonitro'n effeithiol drwy bwyllgor.
- HP41 Drwy ddefnyddio canlyniadau'r dadansoddiad o anghenion, roedd rhaglenni'n cael eu dylunio i ddiwallu'r anghenion hyn. Roedd gwaith hefyd yn cael ei wneud i roi sylw i'r broblem o ddiartrefedd. Roedd gwaith achos da gydag unigolion yn cryfhau hyn.
- HP42 Roedd y cysylltiadau gwych gyda'r Timau Troseddwyr Ifanc lleol yn parhau. Ar ddechrau'r flwyddyn, roedd arolwg defnyddiol a chynhwysfawr wedi'i gyflawni o argraffiadau staff y Timau Troseddwyr Ifanc o'r gwasanaeth adsefydlu oedd yn cael ei ddarparu gan yr uned. Roedd cynllun gweithredu wedi'i gynhyrchu ar sail y darganfyddiadau hyn. Roedd mesurau diweddar yn cynnwys casglu gwybodaeth gan y Timau Troseddwyr Ifanc am sut oedd y cynlluniau cyn-rhyddhau ar gyfer y bobl ifanc yn cael eu cynnal ar ôl eu rhyddhau.
- HP43 Roedd y trefniadau cyn-rhyddhau wedi cael eu gwella. Roedd y bobl ifanc yn awr yn derbyn cyngor a chyfarwyddyd gan y staff dysgu ar sut i reoli arian, a gwybodaeth glir

am wasanaethau iechyd cymunedol. Roedd rhyddhau ar drwydded dros dro yn parhau i fod yn flaenrol ac yn cael ei 'werthu' yn dda i'r bobl ifanc. Er bod y niferoedd yn isel, roedd rhai pobl ifanc wedi derbyn lleoliadau cymunedol da fel rhan o baratoi ar gyfer eu rhyddhau.

- HP44 Roedd y gwaith effeithlon o drefnu a chynnwys y bobl ifanc yn y broses o adolygu eu cynlluniau hyfforddiant yn parhau. Roedd y swyddog cyswllt teulu'n sicrhau, lle bynnag oedd hynny'n bosibl, bod aelodau o'r teulu yn mynychu'r adolygiadau. Roedd un o staff yr uned yn awr yn mynychu'r rhan fwyaf o'r adolygiadau cyntaf yn y gymuned ar ôl rhyddhau.
- HP45 Roedd rôl y gweithiwr cymorth i deuluoedd wedi datblygu'n dda iawn ac roedd y bobl ifanc a'u teuluoedd yn parhau i elwa o'r gwasanaeth hwn. Roedd gan y bobl ifanc fynediad dyddiol at ffonau i gysylltu gyda'u teuluoedd a'u ffrindiau ac roedd y trefniadau post yn effeithlon iawn. Roedd y neuadd ymweld yn cael ei hailwampio a'r adeilad newydd wedi'i ddylunio i gynnig cyfleusterau mwy agored a chysurus gan gynnwys mynediad i ymwelwyr anabl. Roedd diwrnodau teulu dal ond ar gael i bobl ifanc ar lefel aur y cynllun cymhelliad, oedd yn amhriodol.
- HP46 Roedd y gwasanaeth camddefnyddio sylweddau i bobl ifanc yn rhoi cymorth da i rai oedd yn gaeth i sylweddau anghyfreithlon. Roedd profion cyffuriau gwirfoddol wedi cael eu cyflwyno.
- HP47 Ar sail yr ôl-arolygiad byr hwn, roeddem yn credu bod y canlyniadau i'r bobl ifanc yn awr yn dda yn erbyn y prawf carchar iach hwn,

Adran 2: Cynnydd ers yr adroddiad diwethaf

Mae'r cyfeirif paragraff ar ddiwedd pob argymhelliad isod yn cyfeirio at ei leoliad yn yr adroddiad ar yr arolygiad blaenorol.

Prif argymhellion (o'r adroddiad blaenorol)

- 2.1 Ni ddylai pobl ifanc gael eu gwahanu i'r uned gofal iechyd am resymau ymddygiad gwael neu ddisgyblu. (HP46)

Heb ei gyflawni. Roedd pobl ifanc yn parhau i gael eu rhoi yn yr uned gofal iechyd ar ôl eu symud o'u huned breswyl am ymddwyn yn wael. Rhwng Gorffennaf a Medi 2010, roedd tri pherson ifanc wedi cael eu rhoi mewn gofal iechyd am ymddwyn yn wael ac i gynnal disgyblaeth yn yr uned breswyl. Nid oedd hyn yn beth priodol i'w wneud. Ailadroddwn yr argymhelliad hwn.

- 2.2 Dylai ystod llawn o wasanaethau iechyd meddwl priodol i oedran fod ar gael i ddiwallu anghenion y bobl ifanc. (HP47)

Wedi ei gyflawni. Roedd ystod llawn o wasanaethau iechyd meddwl wedi cael eu comisiynu ac roedd gwasanaeth iechyd meddwl lleol ar gyfer plant a phobl ifanc (CAMHS) yn awr ar gael. Roedd y gwasanaeth wedi gwella'r ddarpariaeth iechyd meddwl i'r bobl ifanc yn arw. Roedd dau seiciatrydd, un ymgyngorol ac un cofrestrydd, yn cynnal dwy sesiwn yr wythnos yn yr uned. Roedd nyrs iechyd meddwl arbenigol CAMHS, a oedd yn gweithio'n llawn amser yn yr uned, yn eu cefnogi. Roedd y bobl ifanc yn cael eu cyfeirio i ddechrau at y tîm gan nyrs barhaol yr uned, unrhyw weithiwr iechyd arall neu aelod o staff yr uned. Roedd y tîm yn darparu hyfforddiant rheolaidd mewn ymwybyddiaeth iechyd meddwl i staff yr uned. Roedd y contract wrthi'n cael ei adolygu ar adeg yr arolygiad.

- 2.3 Dylid cyflawni dadansoddiad o anghenion adsefydlu a defnyddio'r canlyniadau i oleuo'r broses o ddiwygio'r strategaeth adsefydlu. (HP48)

Wedi ei gyflawni. Roedd dadansoddiad manwl a chynhwysfawr o anghenion wedi'i wneud yn Nhachwedd 2009. Roedd hwn wedi'i drafod ym mhwyllgor y polisi adsefydlu ac yn cael ei ddefnyddio i oleuo'r gwaith o ddarparu gwasanaethau adsefydlu.

Argymhellion

Llysoedd, gwasanaethau hebrwng a throsglwyddo

- 2.4 Ni ddylai pobl ifanc rannu trafndiaeth gyda charcharorion sy'n oedolion. (1.11)

Wedi ei gyflawni. Dywedodd y staff a'r bobl ifanc wrthym nad oedd hyn yn digwydd yn rheolaidd. Roedd yr achosion lle oedd pobl ifanc yn rhannu trafndiaeth gydag oedolion yn cael eu monitro a ffurflen fisol yn cael ei hanfon at y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid. Dangosodd archwiliad o'r cofnodion fod rhannu gydag oedolyn ond wedi digwydd unwaith yn y chwe mis

blaenorol. Yn ein harolwg, dywedodd 16% o'r bobl ifanc eu bod wedi teithio gydag oedolion yn erbyn y ffigur cymharol cenedlaethol o 30%.

- 2.5 Ni ddylai carcharorion newydd gyrraedd orfod aros mewn cerbydau dros amser cinio. (1.12)

Wedi ei gyflawni. Roedd y dderbynfa yn awr wedi'i staffio dros amser cinio ac nid oedd y bobl ifanc yn cael eu gadael mewn cerbydau dros amser cinio.

- 2.6 Dylai'r carchar sicrhau bod cynrychiolydd o'r gwasanaeth hebrwng yn mynychu cyfarfodydd diogelwch yn gyson i drafod pryderon trafndiaeth. (1.13)

Heb ei gyflawni. Roedd presenoldeb y gwasanaeth hebrwng mewn cyfarfodydd diogelwch yn anghyson.
Ailadroddwn yr argymhelliad hwn.

- 2.7 Dylid gwneud defnydd mwy cyson o'r cyswllt fideo ar gyfer ymddangos yn y llys. (1.14)

Wedi ei gyflawni. Roedd y cyswllt fideo wedi'i ddefnyddio wyth o weithiau yn y tri mis cyn yr arolygiad. Nid oedd tystiolaeth bod hyn yn ormod.

- 2.8 Dylid rhoi gwybodaeth i'r plant a'r bobl ifanc yn y llys am beth i'w ddisgwyl ar ôl cyrraedd y ddalfa, mewn iaith a fformat sy'n ddealladwy iddynt. (1.15)

Wedi'i gyflawni'n rhannol. Roedd yr uned wedi cynhyrchu gwybodaeth am Parc fel y gallai swyddogion llys y timau troseddwr ifanc ei rhoi i'r bobl ifanc yn y llys ar ôl eu dedfrydu. Roedd rheolwyr yr uned hefyd yn mynychu cyfarfodydd gyda'r Timau Troseddwr Ifanc i egluro beth oedd yr uned yn ei ddarparu i bobl ifanc. Er yr ymdrechion hyn, dim ond 2% o'r bobl ifanc yn ein harolwg ddywedodd eu bod wedi derbyn gwybodaeth ysgrifenedig am yr uned cyn cyrraedd.
Ailadroddwn yr argymhelliad hwn.

- 2.9 Dylai pobl ifanc sy'n cael eu trosglwyddo am resymau disgyblu gael digon o rybudd i baratoi am adael, gan gynnwys cyfle i ffonio eu teulu ac i fynd drwy eu pethau cyn eu trosglwyddo, yn amodol ar asesiad risg. (1.16)

Wedi ei gyflawni. Yn amodol ar asesiad risg, roedd pobl ifanc oedd yn cael eu trosglwyddo am resymau disgyblu yn gallu rhoi gwybod i'w teuluoedd a mynd drwy eu pethau. Roedd 12 trosglwyddiad o'r fath wedi digwydd yn 2009.

Y diwrnodau cyntaf dan glo

Ni wnaed unrhyw argymhellion o dan y pennawd hwn yn yr arolygiad blaenorol.

Gwybodaeth ychwanegol

- 2.10 Yn ein harolwg, dywedodd 61% o'r bobl ifanc eu bod wedi cael eu trin yn dda neu'n dda iawn wrth gael eu derbyn, yn erbyn y ffigur cymharol o 83% yn ein harolwg 2009. Dangosodd ein gwaith arsylwi ni fod y trefniadau derbyn yn drylwyr gyda phwyslais priodol ar ddiogelwch. Roedd y gadair BOSS (sganiwr diogelwch agoriadau corfforol) yn parhau i gael ei defnyddio fel opsiwn arall yn lle'r chwiliad corfforol arferol ar gyfer newydd ddyfodiaid. Sylwodd yr arolygwyr ar ddau berson ifanc newydd gyrraedd a oedd wedi teithio yn yr un fan o'r llys. Daeth dau aelod o staff yr uned i'w cyfarfod yn y dderbynfa a chawsant gyfweiliadau noson gyntaf mewn

ystafelloedd ar wahân yn yr uned. Roeddent yna'n gallu eistedd gyda'i gilydd a gofyn cwestiynau am yr uned tra oeddent yn aros i gael eu gweld gan y nyrs. Rhoddwyd cyngor i'r ddau i siarad gyda'r nyrs am glytiau nicotin os oedd eu hangen arnynt. Roedd un o'r bobl ifanc wedi treulio diwrnodau lawer yn nalfa'r heddlu ac wedi gorfod mynd i'r llys yn ei ddillad gwaith, meddai. Cynigiwyd cawod iddo a gallodd newid ei ddillad cyn cyfarfod gweddill y bobl ifanc yn yr uned.

- 2.11 Cafodd asesiadau agored i niwed cychwynnol eu cyflawni'n drylwyr gan staff yr uned. Cafodd asesiadau risg ar rannu celloedd eu cyflawni a galwadau ffôn i deuluoedd eu hwylyso.
- 2.12 Roedd y bobl ifanc yn cael eu harsylwi bob 30 munud am y 72 awr cyntaf dan glo, oni bai eu bod yn destun ACCT lle byddai arsylwi amlach yn briodol. Roedd pobl ifanc a oedd yn cyrraedd heb eu dogfennau i gyd yn cael eu huwch-oruchwyllo.
- 2.13 Roedd y broses gynefino'n dechrau ar y diwrnod o'r wythnos cyntaf ar ôl cyrraedd, gan bara am bum diwrnod, cyn i'r bobl ifanc ymuno â gweddill yr uned fel rhan o'r gyfundrefn arferol. Roedd y broses gynefino'n trafod yr holl feysydd priodol ac roedd llyfryn cynefino da iawn a phriodol i oedran ar gael, wedi'i gynhyrchu gan bobl ifanc.

Unedau preswyl

- 2.14 Dylid darparu gwybodaeth hanfodol mewn fformat hygrych i bobl ifanc na fedrant ddarllen, ac i bobl ifanc lle mai nid Saesneg yw eu hiaith gyntaf, dylid cyfieithu gwybodaeth hanfodol i'w hiaith gyntaf. (2.14)

Wedi ei gyflawni. Roedd arweinyfr rhagorol i Parc ar gael yn Gymraeg a Saesneg, ond nid mewn unrhyw iaith arall. Roedd fersiwn Braille ar gael, ond dim fersiynau tâp sain. Dywedodd staff wrthym eu bod yn defnyddio gwasanaethau cyfieithu dros y ffôn i helpu'r bobl ifanc nad oeddent yn siarad Cymraeg na Saesneg i gynefino. Ar adeg yr arolygiad, nid oedd unrhyw bobl ifanc nad oeddent yn siarad Cymraeg na Saesneg ar yr uned.

- 2.15 Dylid gwella'r awyru yn y celloedd. (2.15)

Heb ei gyflawni. Nid oedd unrhyw welliannau wedi eu gwneud i ffenestri'r celloedd ers yr arolygiad blaenorol. Dywedodd y staff a'r bobl ifanc wrthym fod awyru a thymheredd eithafol ar wahanol adegau yn parhau i fod yn broblem.
Ailadroddwn yr argymhelliad hwn.

- 2.16 Dylai'r celloedd rhwng dau gael eu dodrefnu'n addas a chyffyrddus a dylid bob amser darparu cwpwrdd gyda chlo arno. (2.16)

Heb ei gyflawni. Nid oedd gan yr un o'r celloedd gadeiriau na chypyrddau gyda chlo arnynt.
Ailadroddwn yr argymhelliad hwn.

- 2.17 Dylid gosod sgriniau preifatrwydd effeithiol ym mhob un o'r celloedd. (2.17)

Heb ei gyflawni. Roedd y sgriniau toiled yn y celloedd rhwng dau yn golygu ei bod yn bosibl i berson ifanc gael ei weld yn defnyddio'r toiled gan ei gyd-garcharor.
Ailadroddwn yr argymhelliad hwn.

- 2.18 Dylid gwella'r trefniadau golchi dillad i sicrhau bod dillad yn cael eu dychwelyd i'w perchennog. (2.18)

Wedi'i gyflawni'n rhannol. Roedd hyn wedi gwella rhywfaint ers yr arolygiad blaenorol. Roedd y bobl ifanc ar Echo 1 dal yn gorfod anfon eu dillad i i'r prif olchdy yn y carchar ac roedd rhai achosion lle na chafodd y dillad eu dychwelyd i'w perchennog. Roedd rhai pobl ifanc yn dewis golchi a sychu eu dillad isaf a'u sanau yn eu celloedd a dywedodd eraill wrthym eu bod yn gwisgo eu hen ddillad neu ddillad y carchar yn lle mentro colli eu dillad gorau. Ailadroddwn yr argymhelliad hwn.

- 2.19 Dylid darparu dillad eraill heb fod yn ddillad carchar i bobl ifanc nad oes ganddynt ddigon eu hunain. (2.19)

Wedi'i gyflawni'n rhannol. Roedd jîns a chrysau polo wedi cael eu prynu i bobl ifanc heb ddillad eu hunain, ond nid oedd hyn yn digwydd fel mater o drefn. Gwelsom un person ifanc yn cyrraedd heb ddillad ac a gafodd ddillad carchar sef trowsus a thop tracsiwt gwyrdd. Roedd y trowsus tracsiwt yn rhy fawr iddo ond pan ofynnodd swyddog o'r uned pobl ifanc i swyddog y dderbynfa, nid oedd rhai llai ar gael. Ailadroddwn yr argymhelliad hwn.

- 2.20 Dylid sicrhau bod y polisi deunyddiau anweddus yn cael ei weithredu'n briodol. (2.20)

Wedi ei gyflawni. Roedd y polisi ar ddeunyddiau anweddus yn cael ei weithredu'n gyson.

Gwybodaeth ychwanegol

- 2.21 Roedd y manau cymunedau yn y ddwy adain yn lân a thaclus a'r ddwy adain yn cael eu cadw'n dda. Roedd gan un adain fyrrdau a chadeiriau sownd yn y llawr, a'r llall gyda dodrefn symudol a osodwyd ar gyfer pob pryd bwyd. Roedd y bobl ifanc yn cyd-fwytia ar gyfer bob pryd.
- 2.22 Roedd asesiadau risg rhannu celloedd yn cael eu cyflawni'n briodol a'u diwygio mewn ymateb i ymddygiad y bobl ifanc. Sylwodd yr arolygwyr ar adolygiad ACCT o berson ifanc a oedd am rannu cell eto gyda staff yn egluro'n glir ond yn dawel iddo pam nad oedd hyn yn bosibl tra bod pryderon o hyd ynghylch bygythiad o hunan-niwed. Roedd gan bob un o'r celloedd gloch ac intercom. Yn ein harolwg, dywedodd 66% o'r bobl ifanc fod eu cloch fel arfer yn cael ei hateb o fewn pum munud yn erbyn ffigur cymharol cenedlaethol o 32%. Roedd y celloedd a welsom yn cael eu cadw'n lân gan y carcharorion, ond roedd y celloedd dwbl yn dal i fod yn gyfyng i ddau.
- 2.23 Roedd cyfarfodydd ymgynghori rheolaidd gyda'r bobl ifanc. Roedd pobl ifanc wahanol yn cael eu gwahodd i fynychu bob mis. Er bod rhai eitemau'n rhai sefydlog ar yr agenda, roedd eitem arbennig bob mis lle gofynnwyd i'r bobl ifanc ei hystyried a rhoi eu barn arni. Dangosodd gofnodion y cyfarfodydd fod pwyntiau gweithredu wedi cael eu hól-ddilyn.
- 2.24 Mae gan y bobl ifanc fynediad da o hyd at gawodydd a ffonau. Yn ein harolwg, dywedodd 98% y gallent fel arfer gael cawod bob dydd a dywedodd 95% y gallent ddefnyddio ffôn bob dydd, yn erbyn ffigurau cymharol cenedlaethol o 72% am y naill a 64% am y llall. Roedd y cawodydd, fel inni sylwi yn yr arolygiad blaenorol, yn parhau i fod yn agored. Roedd y bobl ifanc i gyd yn cael côd liain i'w gwisgo rhwng eu celloedd a'r cawodydd, er nad oeddent i gyd yn dewis eu gwisgo.

Y berthynas rhwng y staff a'r bobl ifanc

Ni wnaed unrhyw argymhellion o dan y pennawd hwn yn yr arolygiad blaenorol.

Gwybodaeth ychwanegol

- 2.25 Er gwaethaf canlyniadau ein harolwg, a ddangosodd ddirywiad mewn rhai agweddau ar y berthynas gyda'r staff ers yr arolwg blaenorol, wrth arsylwi gwelsom dystiolaeth gyson o gyd-barch a rhyngweithio da. Roedd y bobl ifanc inni siarad gyda nhw yn ystod yr arolygiad weithiau'n cwyno bod gan y staff eu ffefrynnau ac nad oeddent bob amser yn trin pawb yr un fath o hyd ond, ar y cyfan, nid oeddent yn cwyno am ymddygiad y staff na'u cyswllt gyda nhw.

Swyddogion personol (gweithwyr allweddol)

- 2.26 Dylai'r gweithwyr allweddol a'r gweithwyr allweddol wrth gefn gyflwyno eu hunain i'r bobl ifanc o fewn 24 awr i'w derbyn a chofnodi'r cyfarfod ar ffurflenni hanes yr adain. (2.32)

Wedi ei gyflawni. Roedd y gweithwyr allweddol neu'r rhai wrth gefn yn cyflwyno eu hunain i'r bobl ifanc o fewn diwrnod iddynt gyrraedd ac yn defnyddio stampiau i gofnodi hynny ar ffeiliau'r adain. Roedd y cofnodion yn dangos cyfathrebu da a chyson rhwng y bobl ifanc a'u gweithwyr allweddol ynghyd ag archwiliadau sicrhau ansawdd rheolaidd gan y rheolwyr.

- 2.27 Dylai gweithwyr allweddol fynychu cyfarfodydd pwysig yng nghyswllt y person ifanc y maent yn gyfrifol amdanynt. (2.33)

Wedi'i gyflawni'n rhannol. Roedd gweithwyr allweddol yn mynychu cyfarfodydd pan oeddent ar ddyletswydd a dywedodd y bobl ifanc inni siarad gyda nhw eu bod yn teimlo bod eu gweithiwr allweddol yn gefnogol pan oeddent yn gwneud hynny. Roedd felly'n drueni bod rhai cyfarfodydd pwysig, er enghraifft yr adolygiadau ACCT, yn parhau i gael eu trefnu ar gyfer adegau pan nad oedd y gweithiwr allweddol, neu'r un wrth gefn, ar gael. I raddau, roedd hyn yn cael ei liniaru gan y ffaith bod gan bob un o'r staff preswyl wybodaeth am y bobl ifanc oedd ar eu huned nhw.

Ailadroddwn yr argymhelliad hwn.

Gwybodaeth ychwanegol

- 2.28 Roedd lluniau'r gweithwyr allweddol i fyny ar lun-fyrddau yn yr unedau preswyl gydag enwau'r bobl ifanc yr oeddent yn gyfrifol amdanynt o dan eu lluniau. Roedd enwau'r gweithwyr allweddol hefyd ar gardiau y tu allan i bob cell. Ar y cyfan, roedd y cofnodion ysgrifenedig ar ffeiliau adain y bobl ifanc yn fanwl a chytbwys. Roedd ymdrech ac ymddygiad da'n cael ei gydnabod ac roedd dystiolaeth bod ymddygiad gwael yn cael ei drafod i benderfynu beth oedd yn ei achosi.

Diogelu plant

- 2.29 Dylai'r ddau bwyllgor diogelu gofnodi bod dadansoddi data ym mhob maes diogelu wedi cael ei ystyried a dylent gytuno ar bwyntiau gweithredu angenrheidiol. (3.9)

Wedi'i gyflawni'n rhannol. Fel rhan o'r adolygiad blynyddol o'r polisi diogelu, roedd cryn dipyn o waith wedi'i wneud i ddatblygu setiau data diogelu perthnasol i'w dadansoddi. Roedd y polisi diogelu diwygiedig dal mewn ffurf drafft ac roedd ailadrodd droeon o ran faint o ddadansoddi data oedd angen ei wneud, ac ym mha fformat y dylai fod. Cynigiwyd amryw o wahanol fodelau i'w hystyried ond nid oedd penderfyniad terfynol wedi'i wneud eto. Roedd

cofnodion y cyfarfodydd yn awgrymu bod pwyntiau gweithredu a gytunwyd arnynt yn cael eu cofnodi'n well.

2.30 Dylai'r pwyllgor strategaeth ddiogelu misol fonitro'r holl anafiadau a ddioddefir gan y bobl ifanc. (3.10)

Heb ei gyflawni. Roedd cofnodion yr anafiadau gan bobl ifanc wedi cael eu cadw gan yr uned gofal iechyd, ond ni wnaed unrhyw ddadansoddiad ohonynt. Roedd amrywiaeth o ddata ar ddiogelu'n cael ei gasglu, ond roedd y dadansoddiad o'r data i'r pwyllgorau diogelu dal ddim yn ddigon manwl ac nid oedd yn cynnwys unrhyw ddadansoddiad o'r anafiadau oedd y bobl ifanc wedi eu dioddef.

Ailadroddwn yr argymhelliad hwn.

2.31 Dylid cytuno'n derfynol ac yn ddi-oed ar drefniadau parhaol i ariannu swydd y gweithiwr cymdeithasol yn Parc, er mwyn hwyluso'r gwaith o recriwtio a chadw staff gwaith cymdeithasol. (3.11)

Heb ei gyflawni. Yn dilyn cyfres o drafodaethau gyda Gwasanaethau Cymdeithasol Pen-y-bont ar Ogwr, roedd penderfyniad wedi'i wneud na fyddent mwyach yn parhau i ariannu swydd gweithiwr cymdeithasol yn Parc. Roedd agweddau ar y rôl wedi cael eu hysgwyddo'n egniol gan aelod o staff yn Parc, gan gynnwys y rheolwr diogelu, y gweithiwr cymorth teulu a'r eiriolwyr, ac i raddau helaeth roedd hyn wedi lliniaru'r diffyg gwasanaeth i bobl ifanc o ganlyniad. Fodd bynnag, roedd colli'r arbenigedd hwn, yn enwedig o ran rhwydweithiau gofal cymdeithasol allanol i blant ac asesiadau o blant mewn angen, yn debygol o effeithio'n andwyol ar y canlyniadau i rai pobl ifanc. Roedd y pwyllgor diogelu wedi cytuno i fonitro'n ofalus unrhyw fylchau mewn gwasanaeth yn y dyfodol.

Gwybodaeth ychwanegol

2.32 Roedd Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr yn mynychu cyfarfodydd y pwyllgor diogelu'n gyson, ond roedd presenoldeb aelodau o'r pwyllgor diogelu mewnol yn aml yn isel ac nid oedd yr adran addysg wedi cael ei chynrychioli o gwbl ers 10 mis.

Argymhelliad pellach

2.33 Dylid cymryd camau i sicrhau bod aelodau o'r pwyllgor diogelu yn mynychu cyfarfodydd fel bo angen.

Bwlio

2.34 Dylai'r staff i gyd dderbyn hyfforddiant yn y strategaeth lleihau trais newydd. (3.21)

Wedi ei gyflawni. Roedd pob aelod o staff sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phobl ifanc wedi cwblhau cwrs hyfforddiant ar y strategaeth lleihau trais. Roedd yr hyfforddiant wedi'i ddylunio i godi ymwybyddiaeth am fwlio, yn enwedig effaith bwlio anuniongyrchol. Roedd pob aelod newydd o staff yn derbyn yr hyfforddiant hwn fel rhan o'u cynefino.

Gwybodaeth ychwanegol

- 2.35 Ar y cyfan, dywedodd y bobl ifanc eu bod yn teimlo'n ddiogel. Yn ein harolwg, dim ond 10% o'r bobl ifanc a ddywedodd eu bod wedi teimlo'n anniogel o gwbl yn Parc yn ystod eu harhosiad, erbyn ffigur cenedlaethol cymharol o 29%.
- 2.36 Nid oedd bwlio'n ymddangos i fod yn broblem ddifrifol ac roedd y staff yn sydyn iawn i ymateb pan ddaethant i wybod amdano. Roedd cynlluniau rheoli ymddygiad yn cael eu cynhyrchu ar gyfer bwlis honedig ac weithiau i'r dioddefwyr. Roedd y rhain o ansawdd da ac yn cynnwys asesiadau manwl a thargedau ymarferol perthnasol. Fodd bynnag, roedd y defnydd o gynlluniau rheoli ymddygiad i reoli bwlio'n anghyson ac roedd yn aneglur pam oedd gan rai pobl ifanc gynllun ac eraill ddim (gweler hefyd yr adran ar ddisgyblaeth).
- 2.37 Roedd staff yr uned a disgyblaethau eraill yn mynychu cyfarfodydd dyddiol yr uned yn rheolaidd pob bore ac roeddent yn fforwm gwych i rannu gwybodaeth am fwlio.

Atal hunan-niwed a hunanladdiad

- 2.38 Dylid bob amser diweddarau mapiau gofal ar ôl pob adolygiad. (3.37)
- Wedi ei gyflawni. Roedd y mapiau gofal yn cael eu diweddarau ar ôl pob adolygiad gan y rheolwr achos oedd yn gyfrifol. Roedd rheolwyr yr uned yn gwirio pob wythnos i sicrhau bod hyn wedi cael ei wneud a chofnod yn cael ei gadw o wiriad y ffeil.
- 2.39 Dylai gwasanaeth cwnsela fod ar gael i bobl ifanc. (3.38)
- Wedi ei gyflawni. Roedd y tîm CAMHS wedi cael ei gyflwyno ers yr arolygiad diwethaf ac roedd cwnsela bellach ar gael i bobl ifanc oedd yn cael eu hystyried i fod yn cyflwyno risg uchel o hunan-niwed neu hunanladdiad. Roedd cwnsela a chymorth cyffredinol hefyd yn cael ei ddarparu gan seicolegydd yr uned.
- 2.40 Dylai rheolwr achos y person ifanc fynychu pob adolygiad asesu, gofal dan glo a gwaith tim (ACCT). (3.39)
- Wedi ei gyflawni. Cymerwyd gofal mawr i sicrhau, lle bynnag oedd hynny'n bosibl bod adolygiadau'n cael eu hamseru fel bo'r un rheolwr achos yn gallu mynychu. Roedd y rheolwr diogelu yn cadw cofnod o'r adolygiadau i helpu i sicrhau parhad.
- 2.41 Dylai sylwadau arsylwi fod yn graff a dangos bod ymgysylltu gwirioneddol wedi bod gyda'r person ifanc. (3.40)
- Wedi ei gyflawni. Roedd ansawdd y cofnodion arsylwi ACCT a archwiliwyd gan yr arolygwyr wedi gwella. Roedd y cofnodion yn drylwyr ac yn dangos bod gan y staff wybodaeth a dealltwriaeth dda o anghenion y bobl ifanc yn eu gofal a'u bod yn cael cyswllt cyson gyda nhw. Roedd y sylwadau ysgrifenedig yn y dogfennau ACCT yn cael eu monitro'n amlach ers yr arolygiad blaenorol. Roedd archwiliadau cydymffurfio wythnosol yn awr yn cael eu gwneud gan reolwyr yr adeiniau a oedd wedi helpu i wella ansawdd a chysondeb y cyfraniadau ysgrifenedig gan staff.
- 2.42 Dylai arsylwi wedi nos ddigwydd yr un mor aml ond dylent fod yn annisgwyl. (3.41)

Wedi ei gyflawni. Roedd yr archwiliadau cydymffurfio wythnosol yn cynnwys archwiliadau penodol o arsylwi wedi nos. Roedd y wybodaeth a gafwyd o'r system begio a ddefnyddiwyd gan y staff nos yn cael ei throsglwyddo i daenlen fel bod rheolwyr yn gallu rhoi sylw i arsylwi oedd yn rhy hawdd i'w ragweld neu'n digwydd yn rhy anfyfych.

- 2.43 Dylai fod yna bolisi ar y defnydd o'r celloedd camerâu gofal yn yr uned a dylai hyn gael ei logio a'i fonitro gan y pwyllgor diogelu. (3.42)

Wedi ei gyflawni. Roedd y strategaeth hunanladdiad a hunan-niwed wedi cael ei ddiweddarau ym mis Mai 2010 i ymgorffori cyfarwyddiadau manwl ar ddefnyddio'r celloedd camerâu gofal. Roedd tystiolaeth yng nghyfarfodydd y pwyllgor diogelu bod y defnydd o'r celloedd camerâu yn cael ei drafod mewn achosion unigol.

Gwybodaeth ychwanegol

- 2.44 Nid oedd unrhyw achosion difrifol o hunan-niwed wedi bod ers yr arolygiad diwethaf ac roedd y rhan fwyaf yn ymwneud â phobl ifanc yn achosi mân grafiadau iddynt eu hunain, neu'n curo'r waliau. Cafodd yr adolygiadau ACCT inni arsylwi arnynt yn ystod yr arolygiad eu cyflawni'n dda ac roedd y mewnbwn gan y nyrs blant yn arbennig o werthfawr.

Amddiffyn plant

- 2.45 Dylid ymestyn y broses o gasglu data, ac o ddadansoddi achosion amddiffyn plant sy'n cael eu cyfeirio ymlaen, i gynnwys adnabod patrymau neu dueddiadau'n ymwneud ag unedau neu fannau penodol, honiadau ynghylch ymatal neu fathau eraill o ymosodiadau honedig a phryderon am bobl ifanc neu aelodau o staff penodol. (3.51)

Wedi'i gyflawni'n rhannol. Roedd y cyd-gysylltydd amddiffyn plant yn cynhyrchu adroddiadau ysgrifenedig manwl bob mis i hysbysu'r pwyllgor diogelu o ystod o faterion diogelu, gan gynnwys unrhyw achosion amddiffyn plant a gyfeiriwyd ymlaen o'r newydd. Roedd yr adroddiadau hefyd yn cynnwys cryn ddata ar bobl ifanc unigol. Roeddent yn cynnwys diweddarau cyson ar achosion amddiffyn plant oedd eto i'w cyfeirio ymlaen. Fodd bynnag, nid oedd y wybodaeth yn cael ei dadansoddi'n rheolaidd i nodi unrhyw bryderon posibl ynghylch amddiffyn plant neu batrymau neu dueddiadau dros amser (gweler yr adran ddiogelu).

- 2.46 Dylai'r cyfarwyddwr gymeradwyo'n ffurfiol bod pob achos amddiffyn plant a gyfeiriwyd wedi'i gau. (3.52)

Wedi ei gyflawni. Roedd yr holl achosion amddiffyn plant a gyfeiriwyd yn cael eu hanfon at y cyfarwyddwr i gymeradwyo'r camau cychwynnol ac eto wrth gau'r achos. Roedd y gwaith yn aml yn cael ei ddirprwyo i'r dirprwy gyfarwyddwr ond roedd pob achos a gyfeiriwyd yn dangos yr awdurdod priodol ac yn cynnwys sylwadau ar sut yr ymdriniwyd yn gyffredinol â'r achos a'r cytundeb i'w gau.

- 2.47 Dylai'r awdurdod lleol adolygu'r achosion amddiffyn plant a gyfeiriwyd cyn eu cau i ystyried a oes angen cymryd camau pellach. (3.53)

Wedi ei gyflawni. Roedd y trefniadau amddiffyn plant yn parhau i fod yn drylwyr ac roedd cyswllt rheolaidd gyda Gwasanaethau Cymdeithasol Pen-y-bont ar Ogwr i sicrhau bod achosion amddiffyn plant a gyfeiriwyd yn cael eu hadolygu ac i ddatblygu polisiau a strategaethau perthnasol. Cyfeiriwyd un-ar-ddeg o achosion amddiffyn plant dros y 12 mis blaenorol ac ymdriniwyd â phob un yn briodol ac yn unol â'r gweithdrefnau a gytunwyd arnynt

gyda Gwasanaethau Cymdeithasol Plant Pen-y-bont ar Ogwr. Cynhaliwyd cyfarfodydd strategol yn briodol ynghyd ag ymchwiliadau mewnol yn ôl cyfarwyddyd Gwasanaethau Cymdeithasol Pen-y-bont ar Ogwr. Roedd canlyniad yr ymchwiliadau mewnol yn cael ei adrodd i'r prif swyddog amddiffyn plant ym Mhen-y-bont ar Ogwr, oedd yna'n cael cyfle i wneud sylwadau neu i ofyn i gamau pellach gael eu cymryd. Roedd y pwyllgor diogelu hefyd yn cael ei hysbysu o ganlyniad terfynol yr achosion amddiffyn plant a gyfeiriwyd.

- 2.48 Dylai cofnodion hyfforddi ac archwiliadau CRB y staff gofal iechyd fod ar gael i'r sefydliad i sicrhau eu bod wedi cael eu hyfforddi'n briodol a'u harchwilio i weithio gyda phlant. (3.54)

Wedi ei gyflawni. O'r blaen, roedd y cofnodion hyfforddi a'r archwiliadau CRB ar gyfer staff gofal iechyd wedi cael eu cadw gan y darparwr Primecare, ac nid oedd gan y sefydliad fynediad atynt. Erbyn hyn roedd y rheolwr gofal iechyd yn cadw'r holl gofnodion hyfforddi ac archwiliadau CRB ar gyfer y staff gofal iechyd ac yn sicrhau eu bod yn cael eu diweddarau.

Amrywiaeth

- 2.49 Dylid diwygio'r polisi amrywiaeth ar draws y sefydliad i gynnwys pob agwedd ar amrywiaeth ar gyfer yr uned pobl ifanc. Wrth ei adolygu, dylid ymgynghori gyda phobl ifanc a sicrhau bod ystadegau ar wahân ar gyfer yr uned yn cael eu casglu a'u dadansoddi. (3.68)

Wedi'i gyflawni'n rhannol. Roedd yna bolisi amrywiaeth penodol ar bobl ifanc, ond nid oedd ymgynghori wedi bod gyda nhw wrth ddatblygu'r polisi. Roedd ystadegau ar gyfer yr uned yn cael eu casglu'n gyson i'w defnyddio gan reolwyr yr uned a thîm amrywiaeth y sefydliad.

- 2.50 Dylai fod gan yr uned pobl ifanc ei threfniadau amrywiaeth / tîm cydraddoldeb hiliol ei hun, wedi eu cysylltu'n agos i rai'r prif sefydliad. Dylai tîm amrywiaeth y sefydliad helpu'r uned i sefydlu ei rhaglen amrywiaeth ei hun. (3.69)

Wedi'i gyflawni'n rhannol. Roedd materion amrywiaeth yn eitem sefydlog ar agenda pwyllgor diogelu'r uned a oedd yn fforwm i drafod gofal y bobl ifanc, cwynion ac unrhyw driniaeth wahanïaethol bosibl. Roedd yna gysylltiadau anffurfiol da gyda thîm amrywiaeth y sefydliad, ond nid oedd cynrychiolydd o'r tîm yn mynychu cyfarfodydd y pwyllgor diogelu'n rheolaidd. Dangosodd gofnodion y pwyllgor diogelu am y tri mis blaenorol nad oedd unrhyw drafodaeth o faterion amrywiaeth wedi bod yn absenoldeb y cynrychiolydd amrywiaeth o dîm amrywiaeth y prif sefydliad. Felly hefyd, nid oedd rheolwyr yr uned wedi eu cynrychioli yng nghyfarfodydd tîm amrywiaeth y sefydliad ac nid oedd fforwm i rannu gwybodaeth berthnasol am faterion amrywiaeth.

Argymhelliad pellach

- 2.51 Dylai fod yna fforwm i sicrhau bod gwybodaeth berthnasol am faterion amrywiaeth sy'n benodol i'r uned, a materion amrywiaeth sy'n berthnasol i'r carchar cyfan, yn cael ei rhannu.

- 2.52 Dylai fod yna dîm bychan o gynrychiolwyr amrywiaeth ar gyfer yr uned pobl ifanc a dylid cryfhau'r rôl ymhellach gyda disgrifiadau swydd, hyfforddiant a chymorth. (3.70)

Heb ei gyflawni. Nid oedd dal unrhyw gynrychiolwyr amrywiaeth pobl ifanc. Ailadroddwn yr argymhelliad hwn.

- 2.53 Dylai rôl swyddog anabledd yr uned gael ei datblygu a'i chefnogi gan hyfforddiant priodol. (3.71)

Heb ei gyflawni. Nid oedd yr aelod o staff a oedd wedi gweithredu fel arweinydd anabledd yr uned wedi derbyn unrhyw hyfforddiant ac nid oedd y rôl wedi'i diffinio'n glir. Roedd hefyd yn gweithredu fel y gweithiwr cyswllt teulu ac yn cynnig cymorth gwych i'r bobl ifanc ond roedd yn aneglur pa waith yr oedd yn ei wneud a oedd yn benodol ar gyfer pobl ifanc gydag anabledd. Ailadroddwn yr argymhelliad hwn.

- 2.54 Dylid gwneud addasiadau fel bod ymwelwyr gydag anableddau'n gallu cael mynediad i ystafell ymweld y bobl ifanc. (3.72)

Heb ei gyflawni. Nid oedd unrhyw newid wedi bod i'r trefniadau ymweld. Ond, roedd yr ystafell ymweld i gael ei symud i'r llawr gwaelod fel rhan o raglen ail-adeiladu helaeth ar draws y carchar. Roedd y cyfleusterau newydd i agor yn fuan.

- 2.55 Dylid hyfforddi digon o reolwyr yr uned i ddelio gyda Ffurflenni Adrodd Digwyddiadau Hiliol (RIRFs) i sicrhau bod ymchwiliadau'n cael eu cyflawni'n ddi-oed. (3.73)

Wedi ei gyflawni. Roedd uwch-reolwyr yr uned wedi cael eu hyfforddi i ddelio gyda ffurflenni adrodd digwyddiadau hiliol (RIRFs). Ar adeg yr arolygiad, roedd chwech o bobl ifanc, ychydig o dan 10% o'r boblogaeth, o grwpiau duon neu leiafrifol ethnig. Roedd dau-ddeg pedwar ffurflen RIRF wedi cael eu cyflwyno yn y chwe mis cyn yr arolygiad. Roedd y rhan fwyaf yn ymwneud â phobl ifanc yn defnyddio iaith anwedus. Roedd y ffurflenni RIRF inni eu harchwilio wedi cael eu hymchwilio'n briodol gan y rheolwyr hyfforddedig gyda chymorth swyddog cydraddoldeb hiliol y sefydliad. Roedd yr ymchwiliadau mewnol ac allanol yn cael eu gwirio ar gyfer sicrhau ansawdd, gan gynnwys prydlondeb.

- 2.56 Dylid datblygu monitro SMART ar gyfer yr uned i gynnwys yr holl feysydd gorfodol yn ogystal â monitro uned-benodol y tu hwnt i'r meysydd gorfodol. Dylid cwblhau asesiadau effaith uned-benodol. (3.74)

Wedi'i gyflawni'n rhannol. Roedd ystod eang o fonitro SMART wedi'i ddatblygu ar gyfer yr uned a'r canlyniadau wedi eu hanfon at swyddog cydraddoldeb hiliol y sefydliad a oedd yn trafod unrhyw ganlyniadau andwyol neu ganlyniadau allan o ystod gyda rheolwr yr uned. Nid oedd asesiadau effaith uned-benodol wedi cael eu cwblhau.

Argymhelliad pellach

- 2.57 Dylid cwblhau asesiadau effaith uned-benodol, a chynnwys y bobl ifanc ynddynt.

Gwladolion tramor

- 2.58 Dylid nodi anghenion gwladolion tramor ifanc mewn polisi amrywiaeth uned-benodol. (3.81)

Wedi ei gyflawni. Roedd anghenion gwladolion tramor ifanc yn cael eu nodi ym mholisi amrywiaeth yr uned. Roedd yna gymorthfeydd rheolaidd gan Asiantaeth Ffiniau'r DU (UKBA) a chymorth arbenigol yn cael ei ddarparu gan gyd-gysylltydd gwladolion tramor y sefydliad. Roedd yn cwrdd â gwladolion tramor ifanc newydd gyrraedd ac yn gwneud yn siŵr eu bod yn gwybod sut i gysylltu gyda hi. Dywedodd wrthym ei bod yn ofalus i sicrhau bod oedolyn priodol

yn bresennol os oedd person ifanc yn cael ei gyfweld gan y UKBA a'i bod yn mynychu cyfarfodydd gorchmynion cadw dan glo a hyfforddi os oedd statws gwladolion tramor ifanc yn cael ei drafod. Roedd gwasanaeth cyfieithu ffôn ar gael i bobl ifanc na allent siarad Saesneg, er nad oedd angen hyn ar yr un person ifanc o dramor a oedd ar yr uned ar adeg yr arolygiad.

Cyswllt gyda'r byd tu allan

2.59 Dylai'r gwasanaeth bws i ymwelwyr fod ar gael ar ddydd Sul. (3.95)

Heb ei gyflawni. Roedd y gwasanaeth bws oedd yn cael ei redeg gan y carchar i gludo ymwelwyr o'r orsaf rheilffordd i'r sefydliad dal ond yn rhedeg o ddydd Llun tan ddydd Sadwrn. Roedd y sefydliad yn anodd i'w gyrraedd ar drafnidiaeth gyhoeddus ar ddydd Sul oherwydd bod llai o wasanaethau trên a bws ar gael. Roedd arolwg diweddar wedi dangos na fyddai digon o ddefnydd o wasanaeth bws ar ddydd Sul, ond roedd cynlluniau i wneud arolwg pellach yn y dyfodol agos pan fyddai'r boblogaeth oedolion yn cynyddu'n sylweddol. Yn ein harolwg ni, dywedodd 13% o'r bobl ifanc ei bod yn anodd i'w teulu ddod i'w gweld a dywedodd 13% ei bod yn anodd iawn.

2.60 Yn amodol ar asesiad risg priodol, dylai ymwelwyr o dan 18 oed gael ymweld â phobl ifanc yn yr uned heb gwmniaeth. (3.96)

Wedi ei gyflawni. Roedd rhai o'r bobl ifanc wedi cael ymweliadau gan bobl ifanc o dan 18 oed. Yn yr amgylchiadau hyn, roedd yr ymwelwyr wedi cael eu fetio'n ofalus.

2.61 Ni ddylai'r bobl ifanc orfod gwisgo bibiau. (3.97)

Heb ei gyflawni. Roedd y bobl ifanc dal yn gorfod gwisgo bibiau am resymau diogelwch. Cawsom wybod y byddai'r ymarfer hwn yn dod i ben pan fyddai'r ystafelloedd ymweld newydd yn agor ac y byddai'r bibiau diurddas yn cael eu disodli gan fandiau arddwrn lliw.

2.62 Dylid cyflawni arolwg penodol o anghenion y rhai sy'n ymweld â'r bobl ifanc. (3.98)

Wedi ei gyflawni. Roedd arolwg wedi'i wneud yn ddiweddar i holi rhieni a gofalwyr am eu profiad o ymweld â'r sefydliad. Roedd y wybodaeth a gasglwyd yn cael ei choladu.

2.63 Dylai fod yna ganolfan ymwelwyr gyda threfn a chyfarpar priodol i roi gwybodaeth a chymorth i ymwelwyr ynghyd â chyfle iddynt wneud sylwadau ar y trefniadau ymweld. (3.99)

Ddim yn berthnasol mwyach. Nid oedd yna ganolfan ymwelwyr allanol, ond roed ymwelwyr yn aros mewn lle aros cyffyrddus gyda mynediad at doiledau, amrywiaeth o wybodaeth a chornel chwarae fechan. Roedd desg wybodaeth wedi'i staffio gan staff a gwirfoddolwyr o dîm cymorth i deuluoedd Parc yn cynnig gwybodaeth a chymorth.

2.64 Dylai'r bobl ifanc i gyd fod yn gymwys i wneud cais am ddiwrnodau teulu, a dylid trefnu'r rhain yn fisol. (3.100)

Heb ei gyflawni. Roedd diwrnodau teulu'n cael eu trefnu bob tri mis a dim ond pobl ifanc ar lefel aur y cynllun gwobrau a sancsiynau oedd â hawl iddynt. Ailadroddwn yr argymhelliad hwn.

Gwybodaeth ychwanegol

- 2.65 Roedd rôl y gweithiwr cyswllt teulu wedi parhau i ddatblygu. Roedd ganddi broffil uchel yn yr uned ac yn cyfweld yr holl newydd ddyfodiaid i gadarnhau a oedd angen unrhyw gymorth arnynt i aros mewn cysylltiad â'u teuluoedd. Roedd ganddi wybodaeth dda am anghenion y plant oedd yn derbyn gofal ac yn cysylltu gyda'u hawdurdod lleol fel mater o drefn i sicrhau bod eu hanghenion penodol yn cael eu diwallu. I raddau helaeth, roedd y gweithiwr cyswllt teulu yn lliniaru effaith colli'r gweithiwr cymdeithasol annibynnol ar gyfer plant oedd yn derbyn gofal.
- 2.66 Yn ein harolwg, dywedodd 54% o'r bobl ifanc eu bod yn derbyn un neu fwy o ymweliadau yr wythnos yn erbyn y ffigur cymharol cenedlaethol o 38%.
- 2.67 Roedd y neuadd ymweld yn cael ei hailwampio. Roedd y trefniadau dros dro braidd yn gyfyng, ond roedd yr adeilad newydd wedi'i ddylunio i gynnig cyfleusterau mwy agored a chysurus gan gynnwys mynediad i ymwelwyr anabl.

Ceisiadau a chwynion

- 2.68 Dylai fod yna system drylwyr o sicrhau ansawdd ar gyfer cwynion fel bod yr ymatebion o safon gyson uchel. (3.107)

Wedi ei gyflawni. Roedd yr holl gwynion o'r uned pobl ifanc yn cael eu coladu gan aelod o'r staff gweinyddol a oedd wedi'i leoli ar safle'r prif garchar. Roeddent yn cael eu rhoi drwy'r un system o sicrhau ansawdd â chwynion a ddaethai o'r safle oedolion. Fel arfer, roedd sampl o tua un o bob tri'n cael ei harchwilio gan reolwr. Roedd yr holl ymatebion a welsom i gwynion a wnaed gan y bobl ifanc yn gwrtais a phrydlon. Roedd cwynion unigol hefyd yn cael eu trafod yn go fanwl yng nghyfarfodydd y pwyllgor diogelu gan sicrhau bod staff yn delio gyda nhw'n brydlon a bod unrhyw bryderon diogelu cysylltiedig hefyd yn derbyn sylw.

Gwybodaeth ychwanegol

- 2.69 Dim ond nifer fach o gwynion ffurfiol oedd wedi dod i law gan y bobl ifanc, a bron wedi haneru ers yr arolygiad blaenorol. Roedd yr eiriolwyr annibynnol yn ymweld â'r uned ddwy neu deirgwaith yr wythnos. Roedd ganddynt berthynas weithio dda gyda'r staff a'r bobl ifanc ac yn gallu datrys yn anffurfiol llawer o'r problemau a godwyd gan y bobl ifanc.
- 2.70 Ar ôl cais gan y bobl ifanc yn un o gyfarfodydd ymgynghorol yr uned yn ddiweddar, roedd bwriad i gyflwyno system o adborth llafar yn ogystal ag ymateb yn ysgrifenedig i gwynion ffurfiol.

Hawliau cyfreithiol

- 2.71 Dylai fod gan y bobl ifanc fynediad at gyngor effeithiol gan staff gwasanaethau cyfreithiol hyfforddedig, gan gynnwys cynllun gwybodaeth a chymorth ar fechniaeth i rai sydd heb eu dyfarnu'n euog, a gwasanaeth i rai sy'n apelio. (3.112)

Wedi ei gyflawni. Nid oedd unrhyw staff gwasanaethau cyfreithiol hyfforddedig yn y carchar. Fodd bynnag, roedd gweithiwr remand y Tîm Troseddwyr Ifanc yn yr uned yn delio gyda'r holl bobl ifanc oedd heb eu dyfarnu'n euog ac yn sicrhau bod unrhyw gyngor neu gymorth

cyfreithiol oedd ei angen arnynt yn cael ei ddarparu drwy broses y cynllun remand. Roedd lefel debyg o gymorth yn cael ei darparu i apelyddion gan weithwyr achos ar y cyd â gweithwyr Tîm Troseddwr Ifanc yr uned.

Gwasanaethau iechyd

- 2.72 Dylid cyflawni asesiad o anghenion iechyd i nodi unrhyw anghenion iechyd penodol gan y bobl ifanc. (4.36)
- Wedi ei gyflawni. Roedd asesiad cynhwysfawr o anghenion iechyd yn y carchar wedi'i wneud yn 2009-2010, gyda chynllun darparu iechyd yn y carchar i ddilyn yn Ebrill 2010.
- 2.73 Dylai'r bwrdd partneriaeth gyfarfod yn aml. (4.37)
- Wedi ei gyflawni. Roedd y bwrdd partneriaeth yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn cynnwys cynrychiolwyr priodol o'r sefydliad, y bwrdd iechyd lleol, CAHMS, G4S, Iechyd Cyhoeddus Cymru a phartion budd eraill.
- 2.74 Dylai pwyllgor llywodraethu clinigol y sefydliad gyfarfod yn rheolaidd. (4.38)
- Wedi ei gyflawni. Ar ôl cyfnod go gythryblus, gan gynnwys swyddi a fu'n wag am hir, rheolwr gofal iechyd newydd wedi cychwyn a darparwr gofal iechyd newydd, roedd y pwyllgor wedi ailffurfio ac yn cyfarfod yn rheolaidd.
- 2.75 Dylai aelodau priodol o'r tîm clinigol fynychu cyfarfodydd y pwyllgor llywodraethu clinigol. (4.39)
- Wedi ei gyflawni. Roedd y rheolwr gofal iechyd a / neu'r uwch nyrs yn mynychu cyfarfodydd y pwyllgor llywodraethu clinigol.
- 2.76 Dylai'r pwyllgor meddyginiaeth a therapiwtig adolygu polisiau yn gyson. (4.40)
- Wedi'i gyflawni'n rhannol. Roedd rhai polisiau wedi cael eu hadolygu, eraill eto i dderbyn sylw.
Ailadroddwn yr argymhelliad hwn.
- 2.77 Dylai'r holl staff gofal iechyd sy'n gweithio gyda phobl ifanc fod wedi derbyn hyfforddiant priodol. (4.41)
- Wedi ei gyflawni. Roedd yr holl staff gofal iechyd wedi cyflawni hyfforddiant amddiffyn plant.
- 2.78 Dylid cael cyfleusterau golchi dwylo, sy'n cydymffurfio â safonau rheoli haint, ym mhob un o'r ystafelloedd triniaeth. (4.42)
- Heb ei gyflawni. Nid oedd gan yr un o'r ddwy ystafell driniaeth gyfleusterau golchi dwylo priodol. Roedd menig llawfeddygol a phapur llaw meddyginiaethol ar gael, ond nid oedd y rhain yn cydymffurfio â safonau rheoli haint a ddim yn ffit i'r pwrpas. Roedd y risg o haint yn parhau i fod yn bryder.
Ailadroddwn yr argymhelliad hwn.
- 2.79 Dylid darparu digon o gymorth gweinyddol i'r tîm gofal iechyd pobl ifanc fel nad oes raid i nyrsys gyflawni dyletswyddau gweinyddol, gan felly effeithio ar eu gwaith gofal. (4.43)

Wedi ei gyflawni. Roedd dau swyddog gweinyddol ar gael ac, fel rhan o raglen ailstrwythuro'r sefydliad, roedd swyddog gweinyddol arall yn cael ei recriwtio. Roedd y nyrs pobl ifanc un-swydd yn cadw rhai ystadegau gofal iechyd ar gyfer y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, ond roedd gwaith gweinyddol arall, fel teipio llythyrau, yn cael ei wneud gan y prif dîm gweinyddol.

2.80 Dylai'r bobl ifanc fod yn gallu ymgynghori gyda fferylllydd. (4.44)

Wedi ei gyflawni. Roedd y bobl ifanc yn gallu ymgynghori gyda fferylllydd neu dechnegydd fferyllol yn y brif uned gofal iechyd. Ar adeg yr arolygiad, roedd fferylllydd locwm llawn amser yn cael ei gynorthwyo gan dri thechnegydd. Mewn realiti, ychydig iawn o bobl ifanc oedd yn gofyn am gael gweld y fferylllydd.

2.81 Dylid cyflwyno system rheolaeth glinigol electronig. (4.45)

Wedi ei gyflawni. Roedd system gwybodaeth feddygol electronig wrthi'n cael ei rhoi yn ei lle. Roedd y caledwedd ar gyfer y rhaglen SystemOne wedi cael ei brynu a'i osod, ond nid oedd y meddalwedd wedi'i osod eto. Roedd hyfforddiant priodol ar gyfer yr holl staff gofal iechyd i'w ddarparu cyn gynted ag y byddai'r system wedi'i gosod yn llawn. Roedd arbenigwr systemau Technoleg Gwybodaeth o'r bwrdd iechyd lleol yn cynorthwyo'r sefydliad yn ystod y broses osod a byddai'r cymorth hwn yn parhau am gyfnod amhenodol.

2.82 Dylid gallu archwilio'r system apwyntiadau gofal iechyd. (4.46)

Wedi'i gyflawni'n rhannol. Roedd y nyrs yn cadw archwiliad papur o weithgarwch clinigol mewn dyddiadur presenoldeb mewn clinigau gofal iechyd. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw system ar wahân ar gyfer archwilio llawer o'r apwyntiadau anffurfiol oedd ganddi gyda'r bobl ifanc. Lle oedd hynny'n briodol, roedd y wybodaeth yn cael ei gofnodi yng nghofnod clinigol y person ifanc. Byddai'r SystemOne yn cynnig dull trylwyr o archwilio a chasglu data.

2.83 Dylai'r llyfryn gwybodaeth gofal iechyd fod yn briodol i oedran a chynnwys gwybodaeth am sut i wneud cwynion gofal iechyd. (4.47)

Wedi ei gyflawni. Roedd y llyfryn gofal iechyd yn briodol i oedran ac yn cynnwys gwybodaeth ysgrifenedig a darluniadol am sut i gael gafeael ar wasanaethau iechyd. Roedd person ifanc oedd yn cwyno am ofal iechyd yn cael ei weld gan y nyrs a oedd yna'n cyfeirio'r cwyn ymlaen at y pennaeth gofal iechyd os oedd hynny'n briodol.

2.84 Dylid datblygu algorithmau 'brysbennu' sy'n briodol i oedran er mwyn sicrhau bod y cyngor a'r driniaeth a roddir i bobl ifanc yn gyson. (4.48)

Wedi ei gyflawni. Roedd algorithm priodol i oedran wedi'i ddylunio ar sail cyngor gan unedau pediatrig lleol a chenedlaethol ac wedi'i gyflwyno yn yr uned a'r uned gofal iechyd. Roedd y staff i gyd wedi cael eu hyfforddi ar sut i'w ddefnyddio.

2.85 Dylai'r bobl ifanc dderbyn archwiliadau deintyddol i adlewyrchu rhai a gomisiynir fel arfer gan yr Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol ar gyfer grwpiau oed tebyg yn y gymuned. (4.49)

Wedi ei gyflawni. Roedd pob person ifanc yn cael cynnig apwyntiad gyda'r deintydd yn ystod yr ail sgriniad iechyd. Roedd sesiwn ddeintyddol un-swydd i bobl ifanc yn cael ei chynnal bob pedair i bum wythnos. Roedd hyd at 25 o bobl ifanc yn cael eu gweld a'u trin mewn un sesiwn ac roedd y rhestr aros wedi'i chlirio. Roedd y deintydd yn mynychu'r sefydliad bob wythnos ac

os oedd unrhyw berson ifanc yn cael trafferth, byddai'n cael ei weld yn awtomatig yn un o'r clinigau oedolion.

- 2.86 Dylid cyflwyno cyfarwyddyd trin cleifion fel y gallai'r fferylllydd a / neu'r nyrs gyflenwi meddyginiaeth gryfach, i osgoi gorfod gweld y meddyg yn ddiangen. Dylid cadw copi o'r Cyfarwyddyd Trin Cleifion gwreiddiol a lofnodwyd yn y fferyllfa a dylai'r holl staff perthnasol ei ddarllen a'i lofnodi. (4.50)

Wedi'i gyflawni'n rhannol. Roedd Cyfarwyddiadau Trin Cleifion wedi cael eu datblygu ond heb gael eu cyflwyno oherwydd bod y fferylllydd wedi ymddiswyddo. Byddai'r Cyfarwyddiadau Trin Cleifion yn cael eu cyflwyno ar ôl i'r fferylllydd newydd gael ei benodi'n fuan. Roedd hyfforddiant i'r nyrsys wrthi'n cael ei gynllunio.

Argymhelliad pellach

- 2.87 Dylid adolygu'r Cyfarwyddiadau Trin Cleifion a gynhyrchwyd eisoes a'u cyflwyno cyn gynted ag y bo modd, a darparu hyfforddiant priodol i'r staff.

- 2.88 Dylid cyflwyno gweithdrefn ar gyfer achosion lle mae angen i feddyg ragnodi cyffur allanol. (4.51)

Wedi ei gyflawni. Roedd protocol ysgrifenedig ar gyfer defnyddio cyffuriau allanol yn ei le ac yn cael ei ddefnyddio fel bo angen.

- 2.89 Dylid cofnodi'r diagnosis a'r dyddiad adolygu ar bob papur presgripsiwn. (4.52)

Wedi ei gyflawni. Ychydig iawn o siartiau gweinyddol a phresgripsiwn oedd yn cael eu defnyddio ac roedd y rhai inni eu harchwilio wedi cael eu llenwi'n gywir.

- 2.90 Dylid ond agor dogfen ACCT ar berson ifanc yn yr uned cleifion mewnlol lle bo angen clir. (4.53)

Wedi ei gyflawni. Nid oedd y staff gofal iechyd yn agor dogfen ACCT person ifanc yn yr uned cleifion mewnlol fel mater o drefn, dim ond os oedd angen clinigol dros wneud hynny.

Gwybodaeth ychwanegol

- 2.91 Ar adeg yr arolygiad, roedd y gwasanaethau iechyd yn dioddef o brinder staff nyrsio difrifol ar draws y sefydliad. Nid oedd y nyrs pobl ifanc un-swydd mwyach wedi'i lleoli'n llawn amser yn yr uned pobl ifanc oherwydd bod y brif adran gofal iechyd ei hangen yno. Roedd hyn wedi effeithio ar fynediad at y nyrs ac adlewyrchwyd hyn yn ein harolwg lle dywedodd 58% o'r bobl ifanc fod fynediad at y nyrs yn dda neu'n dda iawn yn erbyn y ffigur cymharol o 77% adeg yr arolygiad blaenorol. Fodd bynnag, roedd y trafferthion yn derbyn sylw ac roedd pob cais i gael gweld y nyrs yn derbyn ymateb cyn gynted â phosibl ac nid oedd unrhyw restr aros. Roedd y gwasanaethau gofal sylfaenol, gan gynnwys deintyddol, yn parhau i fod yn dda ar y cyfan. Roedd fynediad da at y Meddyg Teulu. Cawsom ein sicrhau, gyda pheth tystiolaeth i gefnogi hyn, y byddai'r darparwr gofal iechyd newydd yn cynyddu'r lefelau staffio ac y byddai ad-drefnu'r gwasanaethau iechyd yn arwain at wella'r gwasanaeth yn gyffredinol.

Dysgu a sgiliau

- 2.92 Dylai'r holl ddysgwyr sgiliau sylfaenol dderbyn asesiad diagnostig llawn o'u hanghenion. (5.16)
- Wedi ei gyflawni. Roedd cynnydd effeithiol wedi'i wneud i sicrhau bod y bobl ifanc yn derbyn asesiad systematig o'u sgiliau sylfaenol drwy ddefnyddio profion safonol priodol wrth gyrraedd yr uned. Roeddent hefyd yn derbyn asesiad diagnostig mwy manwl o'u sgiliau sylfaenol wrth gychwyn sesiynau addysg
- 2.93 Dylid datblygu'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yn unol â'r agenda Ymestyn Hawliau yng Nghymru. (5.17)
- Wedi ei gyflawni. Roedd staff ymyriadau newydd eu penodi wedi datblygu rhaglen newydd i ddysgu sgiliau cymdeithasol gwell i'r bobl ifanc, sgiliau y byddai eu hangen arnynt ar ôl gadael. Roedd y rhaglen hon i'w gweithredu yn yr wythnosau nesaf. Roedd y staff addysg hefyd yn paratoi'r bobl ifanc yn dda ar gyfer eu rhyddhau drwy ddysgu sgiliau personol a chymdeithasol iddynt drwy gydol y cwricwlwm. Roedd hyn yn cynnwys sgiliau coginio, sgiliau personol, glanhau, trin arian a sgiliau datrys problemau.
- 2.94 Dylid datblygu'r cwricwlwm i sicrhau bod digon o sylw'n cael ei roi i sgiliau allweddol ac addysg bersonol a chymdeithasol. (5.18)
- Wedi ei gyflawni. Roedd y staff dysgu a'r cynghorwr gyrfaoedd wedi gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i ddatblygu deunyddiau dysgu defnyddiol i wella dealltwriaeth y bobl ifanc o berthnasedd addysg bersonol a chymdeithasol i'r byd gwaith.
- 2.95 Dylid gwneud ymdrechion i wella'r gweithdrefnau recriwtio i sicrhau bod swyddi gwag yn cael eu llenwi heb ormod o oedi. (5.19)
- Wedi ei gyflawni. Ar adeg yr arolygiad, roedd y sefydliad yn recriwtio staff i ymestyn y cyrsiau dysgu a sgiliau ac roedd sylw da wedi'i roi i recriwtio staff oedd yn siarad Cymraeg. Roedd y gweithdrefnau recriwtio ar gyfer staff sy'n gweithio gyda phobl ifanc yn sicrhau nad oedd gormod o oedi a fyddai'n effeithio ar ddarparu dysgu a sgiliau.
- 2.96 Dylid gwneud defnydd gwell o Gynlluniau Dysgu Unigol drwy gynnwys y bobl ifanc yn y gwaith o'u paratoi. (5.20)
- Wedi'i gyflawni'n rhannol. Roedd y rhan fwyaf o'r athrawon yn defnyddio cynlluniau dysgu unigol yn dda i oleuo cynllun y person ifanc. Roedd gwybodaeth am gynnydd y bobl ifanc yn cael ei rhannu'n dda o fewn y tîm addysg a rhwng y staff addysg a'r staff gweithredol, gan. Roedd y broses rhannu gwybodaeth yn gwella ansawdd y cynlluniau addysg.
- 2.97 Roedd datblygiadau da mewn addysg i ystyried arddulliau ac anghenion dysgu'r bobl ifanc wrth gynllunio sesiynau. Roedd y cynllunio sesiynau gan yr athrawon yn hyblyg fel y gallai pobl ifanc na allent ddal sylw am hir fynychu dosbarthiadau cerdd neu gelf rhwng y gwersi mwy academaidd. Roedd hyn yn golygu eu bod yn gallu dal sylw a dod yn eu blaenau'n well yn y ddwy sesiwn.
- 2.98 Fodd bynnag, nid oedd y systemau i hysbysu athrawon o'r canlyniadau asesu yn rhai trylwyr. Mewn rhai achosion prin, nid oedd yr athrawon yn ddigon clir ynghylch sgiliau llythrennedd a

rhifedd y bobl ifanc wrth gynllunio'r gwersi. Yn yr achosion hyn, nid oedd yr athrawon yn cynnwys y bobl ifanc yn ddigonol yn eu cynllunio a'u dysgu.

- 2.99 Roedd staff yr uned yn cadw mewn cysylltiad da â staff y Tîm Troseddwr Ifanc a oedd yn aml yn darparu gwybodaeth ychwanegol i oleuo asesiad y person ifanc. Mewn rhai achosion, roedd y staff yn gofyn am ganlyniadau asesu gan gyrrff fel awdurdodau lleol, a oedd eisoes wedi cael cyswllt gyda'r person ifanc. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn digwydd fel mater o drefn. Os oedd y bobl ifanc eisoes yn astudio ar gyfer cymwysterau addysg ffurfiol cyn dod i'r ddalfa, roedd y cyswllt gyda'r ysgolion yn aros yn dda i sicrhau bod y staff yn cynllunio rhaglenni fel y gallai'r bobl ifanc barhau i astudio tra oeddent dan glo.
Ailadroddwn yr argymhelliad hwn.

- 2.100 Dylai'r staff i gyd herio iaith ymosodol neu anweddus yn gyson. (5.21)

Wedi ei gyflawni. Roedd y staff yn herio achosion o ymddygiad ymosodol neu anweddus yn gyson. Mewn rhai achosion prin, nid oedd staff yn glir ynghylch sut i fabwysiadu strategaethau effeithiol i ddelio gyda'r ymddygiad mwyaf heriol mewn dosbarthiadau.

- 2.101 Dylid rhoi cyfle i'r bobl ifanc ddatblygu eu hysgrifennu a gwella eu sgiliau TGCh mewn dosbarthiadau sgiliau sylfaenol. (5.22)

Wedi ei gyflawni. Roedd cyfleoedd da i'r bobl ifanc wella eu sgiliau ysgrifennu a TGCh. Roedd darparu sgiliau sylfaenol wedi gwella, gyda staff yn defnyddio deunyddiau pwrpasol i gynnwys y bobl ifanc. Roedd tiwtoriaid yn gwneud defnydd da o weithgareddau cyfoethogi yn ategol at weithgareddau academaidd, fel bod y bobl ifanc, mewn rhai gwersi ar ôl sesiwn 45 munud, yn mynychu gwर्स sgiliau sylfaenol ar sail chwarae pŵl. Roedd y gweithgaredd hwn yn defnyddio deunyddiau dysgu arloesol i gael y bobl ifanc i gyfrannu. Roedd trefniadau diweddar wedi bod i ddefnyddio staff ymyriadau i ddatblygu rhaglenni atodol i helpu'r bobl ifanc gydag anghenion dysgu mwy cymhleth. Roedd yn rhy fuan i werthuso effaith hyn.

- 2.102 Dylid gwella'r gwaith o gynllunio adnoddau canolog, er enghraifft i sicrhau bod dillad oferôls ar gael yn y gweithdy peintio ac addurno. (5.23)

Wedi ei gyflawni. Roedd adnoddau angenrheidiol ar gael ar gyfer y cyrsiau i gyd. Lle oedd cyrsiau cwricwlaidd newydd wedi eu trefnu, roedd sylw da wedi'i roi i'r adnoddau fyddai eu hangen i ddarparu'r sesiynau.

- 2.103 Dylid cynyddu'r ystod o ddeunyddiau dysgu ac asesu yn Gymraeg a dylid cael cynllun blaenoriaethu ar gyfer cyfieithu. (5.24)

Wedi ei gyflawni. Roedd y staff wedi cynhyrchu adnoddau da oedd yn cael defnydd da i wella dealltwriaeth y bobl ifanc o'r iaith Gymraeg. Roeddent yn adnabod y bobl ifanc oedd yn gallu siarad Cymraeg neu a oedd wedi eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, fel mater o drefn. Roeddent yn cynnig cyfleoedd da i'r bobl ifanc hyn gael gwella eu sgiliau iaith. Roedd trefniadau boddhaol i gyfieithu deunyddiau gwर्स. Roedd y ddarpariaeth i helpu'r bobl ifanc i ennill ymwybyddiaeth o Gymru, ei diwylliant a'i hiaith, wedi gwella. Yn yr uned addysg, roedd y bobl ifanc wedi creu arddangosfeydd effeithiol ar rannau o Gymru, nodweddion a phersonoliaethau lleol. Roedd hyn wedi gwella ymwybyddiaeth unigolion o ranbarthau Cymru.

- 2.104 Dylai'r gwर्स i gyd gychwyn yn brydlon a dylid monitro hyn yn rheolaidd. (5.25)

Wedi ei gyflawni. Roedd prydlondeb wedi gwella ac yn bur dda. Roedd y staff gweithredol yn monitro hyn yn dda, drwy gasglu data defnyddiol i'w ddadansoddi. Roedd y cydweithrediad

rhwng y staff addysg a gweithredol yn sicrhau bod sylw da'n cael ei roi i helpu'r bobl ifanc i gyrraedd eu gwersi ar amser. Roedd hyn yn helpu'r athrawon i gychwyn y gwersi heb ormod o aflonyddwch, a oedd yn ei dro yn gwella capasiti'r bobl ifanc i ddysgu.

2.105 Dylid cynyddu lefel y cymorth gan lyfrgellydd proffesiynol. (5.26)

Heb ei gyflawni. Dim ond am awr a hanner yr wythnos oedd llyfrgellydd proffesiynol ar gael ac ar hyn o bryd nid oedd unrhyw staff ar gael i helpu'r bobl ifanc i ddefnyddio'r llyfrgell. O ganlyniad, nid oedd mynediad y bobl ifanc at gymorth yn y llyfrgell yn foddhaol. Ailadroddwn yr argymhelliad hwn.

2.106 Dylid gwerthuso'r llyfrgell i sicrhau ei bod yn diwallu anghenion y bobl ifanc a'r cwricwlwm. (5.27)

Wedi ei gyflawni. Roedd y defnydd a wnaed o'r llyfrgell wedi cael ei werthuso ac adnoddau defnyddiol ychwanegol wedi cael eu prynu. Roedd y rhain yn cynnwys deunyddiau gwerthfawr i gyd-fynd â'r cyrsiau addysg oedd ar gael i'r bobl ifanc. Roedd y rhain wedi cael eu storio gyda'r bwriad o'u gosod yn y llyfrgell yn fuan iawn ar ôl yr arolygiad.

Gwybodaeth ychwanegol

2.107 Ar y cyfan, roedd y cyrhaeddiad yn y sefydliad yn dda iawn gyda mwy na 94% o'r bobl ifanc yn ennill cymhwyster perthnasol ac yn symud ymlaen at un ar lefel uwch. Ar ôl asesiad cychwynnol, roedd y bobl ifanc yn symud ymlaen yn sydyn at weithgareddau a oedd yn cyd-fynd â'u diddordebau a'u hanghenion.

2.108 Roedd digon o le i sicrhau bod y bobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ystyrlon. Roedd y cwricwlwm yn gytbwys ac yn ddigon eang. Roedd y staff wedi cynyddu ystod y cwricwlwm ers yr arolygiad blaenorol. Er enghraifft, gallai'r bobl ifanc yn awr weithio tuag at ennill tystysgrifau BTEC mewn cerdd a roedd y bobl ifanc i gyd yn gweithio tuag at gymhwyster OCN (Rhwydwaith Coleg Agored) mewn dinasyddiaeth fyd-eang.

2.109 Roedd mynediad at hyfforddiant galwedigaethol yn foddhaol ac yn gwella. Roedd uned gwaith coed newydd ar fin agor i gynnig gwaith coed yr OCN ar amryw o wahanol lefelau, ac roedd adnodd dysgu ar gyfer hwsmonaeth anifeiliaid, hwsmonaeth dofednod a garddwriaeth wedi'i gyflwyno.

2.110 Roedd presenoldeb y bobl ifanc yn y gweithgareddau yn dda. Nid oedd y staff dysgu yn eithrio unrhyw bobl ifanc o'r addysg. Roedd y nifer fach a oedd weithiau'n gwrthod mynychu addysg yn cael ei monitro a chamau prydlon yn cael eu cymryd. Roedd y staff addysg a staff y carchar yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i annog y bobl ifanc i fynychu dosbarthiadau.

2.111 Roedd y cyfarwyddyd gyrfaoedd yn cael ei ddarparu gan Gyrfa Cymru Morgannwg Ganol a Phowys Roedd cynghorwr gyrfaoedd yr uned yn darparu cymorth da i'r bobl ifanc drwy gydol eu harhosiad yn yr uned ac yn sicrhau bod gan y bobl ifanc fynediad da at wybodaeth gyrfaoedd o ansawdd uchel. Roedd yn meithrin cyswllt da gyda darparwyr addysg a hyfforddiant allanol a llawer o weithwyr Timau Troseddwyr Ifanc. Roedd y cynghorwr gyrfaoedd yn mynychu neu'n cyfrannu mewnbyn cyson i'r cyfarfodydd cynllunio hyfforddiant. Roedd y staff yn defnyddio'r mewnbyn hwn i oleuo eu trafodaethau ar gynlluniau datblygu'r bobl ifanc.

2.112 Roedd staff yr adran addysg yn mynychu'r cyfarfodydd cynllunio hyfforddiant yn rheolaidd ac yn cyfrannu'n dda at y trafodaethau fel bod y bobl ifanc wedi eu paratoi'n iawn ar gyfer eu

rhyddhau. Roedd rhai pobl ifanc yn cael eu cefnogi'n dda i ddefnyddio rhyddhau ar drwydded dros dro (ROTL) er mwyn mynychu profiad gwaith neu gyfweiliadau.

- 2.113 Roedd y rôl ddefnyddiol o hyfforddwr dysgu wedi cael ei chyflwyno i'r tîm addysg. Roedd yr hyfforddwr dysgu hwn newydd ddechrau mynychu cyfarfodydd rhwydwaith hyfforddwyr dysgu'r awdurdod lleol. Roedd yr hyfforddwr dysgu'n helpu i sicrhau bod y bobl ifanc gyda llythrennedd gwael yn derbyn cymorth wedi'i dargedu wrth weithio drwy'r adnoddau cynefino.

Addysg gorfforol a hybu iechyd

- 2.114 Dylid cynnig mwy o gyfleoedd i'r bobl ifanc gymryd rhan yng nghynllun gwobrau Dug Caeredin. (5.41)

Heb ei gyflawni. Nid oedd y ddarpariaeth yma wedi cael ei chynyddu. Ailadroddwn yr argymhelliad hwn.

- 2.115 Dylai'r bobl ifanc i gyd dderbyn eu hawl i ddwy sesiwn Addysg Gorfforol pob wythnos. (5.42)

Wedi ei gyflawni. Roedd mynediad at AG yn dda a dim ond nifer isel yn gwrthod mynychu. Roedd cyfarpar campfa yn yr iard ymarfer corff, ac yn cael defnydd gan y bobl ifanc yn ychwanegol at y sesiynau campfa ffurfiol. Roedd gan y bobl ifanc a oedd wedi cyrraedd y lefel uchaf ar y cynllun cymhellion hawl i gael eu sesiynau ychwanegol eu hunain yng nghampfa'r oedolion ar benwythnosau.

- 2.116 Dylid ymestyn ystod y cymwysterau chwaraeon sydd ar gael drwy Addysg Gorfforol. (5.43)

Wedi'i gyflawni'n rhannol. Roedd rhai o'r bobl ifanc wedi defnyddio'r gampfa i ennill cymhwyster rheoli ffordd o fyw gan Rwydwaith y Coleg Agored. Fodd bynnag, roedd yr achrediaidau ar gyfer gweithgareddau campfa yn parhau i fod yn isel. Ailadroddwn yr argymhelliad hwn.

Ffydd a gweithgareddau crefyddol

- 2.117 Dylai'r staff sicrhau bod pobl ifanc sy'n mynychu gweddiâu Mwslemaidd yn cyrraedd ar amser. (5.51)

Wedi ei gyflawni. Roedd pobl ifanc yn cyrraedd ar amser ar gyfer gweddiâu Mwslemaidd. Roeddent yn gallu gweddïo gyda'i gilydd ar ddydd Gwener, gyda gweddiill y boblogaeth Fwslemaidd yn Parc yn yr ystafell ffydd newydd.

- 2.118 Dylid rhoi digon o amser i bobl ifanc sydd am fynychu gweddiâu Mwslemaidd i baratoi eu hunain ymlaen llaw. (5.52)

Wedi ei gyflawni. Roedd y bobl ifanc oedd am fynychu gweddiâu Mwslemaidd yn cael amser ymlaen llaw i baratoi.

Gwybodaeth ychwanegol

- 2.119 Yn ddiweddar, roedd Parc wedi agor capel a chanolfan ffydd byd newydd, ond roedd y bobl ifanc gyda ffydd Gatholig yn mynychu'r Offeren mewn ystafell yn yr uned. Roedd cymorth ysbrydol a bugeiliol yn cael ei roi i'r bobl ifanc gan y tîm caplaniaeth aml-ffydd a oedd yn gweithio ar draws y carchar. Roedd aelod o'r tîm caplaniaeth wedi cymryd rôl y caplan pobl ifanc ac yn gyson bresennol yn yr uned. Ar ôl i 15 o bobl ddatgan diddordeb, roedd wedi sefydlu grŵp o astudiaeth Gristnogol. Roedd cymorth gan bob un o'r caplaniaid yn cael ei gynnig i bobl ifanc oedd yn profi salwch teuluol neu brofedigaeth.

Amser allan o'r gell

- 2.120 Dylai'r bobl ifanc i gyd fod allan o'u celloedd am o leiaf 10 awr bob dydd. (5.59)

Wedi ei gyflawni. Ar ddyddiau'r wythnos, roedd y bobl ifanc i gyd yn treulio dros 10 awr bob dydd allan o'u celloedd. Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom sylwi bod yr amseroedd cloi a datgloi a hysbysebwyd yn cael eu cadw atynt a bod y bobl ifanc yn symud at weithgareddau y tu allan i'r uned ar amser. Roedd amser allan o'r gell ar benwythnos hefyd yn dda i'r rhan fwyaf a roedd y bobl ifanc ar y lefel uchaf ar y cynllun gwobrau a sancsiynau yn gallu mwynhau 10 awr allan o'u celloedd ar benwythnos, tra bod gan eraill lai o amser.

- 2.121 Dylid datblygu rhaglen eang ac amrywiol o weithgareddau gyda'r nos ac ar benwythnos fel y gallai'r bobl ifanc wneud defnydd adeiladol o'u hamser hamdden. (5.60)

Wedi ei gyflawni. Roedd staff yr uned wedi dechrau datblygu rhaglen o weithgareddau cyfoethogi i'r bobl ifanc. Roedd murluniau llachar a diddorol wedi cael eu peintio ar waliau un o'r manau ymarfer. Roedd gweithgareddau eraill yn cynnwys gosod teils a lloriau laminad a gweithio gyda chwmni dawnsio stryd. Roedd ychwanegu gweithiwr ieuenticid at staff yr uned wedi bod yn benderfyniad gwych. Yn ein harolwg, dywedodd 89% o'r bobl ifanc eu bod yn cymdeithasu bob dydd yn erbyn y ffigur cymharol cenedlaethol o 69%.

- 2.122 Dylai'r manau awyr agored fod yn ddiogel gyda chysgod a lle eistedd addas ynghyd â chyfleusterau hamdden da. Dylid achub ar bob cyfle i'r bobl ifanc gael treulio amser hamdden yn yr awyr agored. (5.61)

Wedi ei gyflawni. Roedd y ddau le awyr agored wedi cael eu dodrefnu gyda chyfarpar ymarfer corff y gallai'r bobl ifanc ei ddefnyddio'n ddiogel heb oruchwyliaeth aelod o'r staff. Roedd lle eistedd i bobl ifanc oedd yn well ganddynt eistedd a siarad gyda'i gilydd neu aelod o'r staff. Yn ein harolwg, dywedodd 89% o'r bobl ifanc eu bod yn gallu gwneud ymarfer corff bob dydd yn erbyn y ffigur cenedlaethol o 42%.

- 2.123 Dylid darparu dillad glaw boddhaol i'r bobl ifanc gael ymarfer ym mhob tywydd heblaw'r tywydd mwyaf garw. (5.62)

Wedi'i gyflawni'n rhannol. Roedd siacedi glaw yn cael eu cadw yn y ganolfan cymorth dysgu i'r bobl ifanc eu defnyddio wrth fynd i ac o'r sesiynau dysgu. Nid oedd unrhyw ddillad glaw ar yr unedau i'r bobl ifanc eu defnyddio yn y manau ymarfer yn yr uned. Ailadroddwn yr argymhelliad hwn.

Diogelwch a rheolau

- 2.124 Dylai'r staff sicrhau nad yw'r bobl ifanc a'r carcharorion sy'n oedolion yn dod i gysylltiad â'i gilydd ar unrhyw adeg yn ystod sesiwn campfa. (6.12)

Wedi ei gyflawni. Roedd y staff wedi cael cyfarwyddiadau clir ynghylch sicrhau nad oedd y bobl ifanc yn dod i gysylltiad gyda'r carcharorion oedd yn oedolion ac nid oedd gan y bobl ifanc mwyach unrhyw gyswllt uniongyrchol gyda nhw yn ystod y sesiynau campfa.

- 2.125 Dylid ond cyflawni chwiliadau corfforol os oedd asesiad risg trylwyr yn awgrymu risg ddifrifol o niwed i'r person ifanc neu i eraill, ac ar awdurdod y cyfarwyddwr dyletswydd. (6.13)

Wedi ei gyflawni. Roedd chwiliadau corfforol ond yn cael eu cyflawni os oedd asesiad risg yn awgrymu bod angen gwneud hyn a roedd yn rhaid i'r cyfarwyddwr dyletswydd neu'r uwch-reolwr diogelu pobl ifanc awdurdodi hynny.

- 2.126 Ni ddylid byth cyflawni chwiliad corfforol drwy ddefnyddio grym. (6.14)

Wedi'i gyflawni'n rhannol. Nid oedd unrhyw chwiliadau corfforol gorfodol wedi cael eu gwneud ers yr arolygiad blaenorol a dywedodd rheolwyr yr uned wrthym na allent ddychmygu sefyllfa pryd y byddai angen gwneud hynny. Fodd bynnag, cawsom wybod fod polisi chwilio'r sefydliad yn datgan y gallai chwilio corfforol gorfodol ddigwydd mewn rhai amgylchiadau, ac nid oedd hyn yn dderbyniol.
Ailadroddwn yr argymhelliad hwn.

Gwybodaeth ychwanegol

- 2.127 Ar wahân i sbel yn gynharach yn y flwyddyn pan oedd chwilio corfforol wedi digwydd yn gyson oherwydd pryder ynghylch cyffuriau'n cael eu cludo i'r uned, roedd chwilio corfforol yn parhau i gael ei wneud ar sail gwybodaeth. Ar y cyfan, roedd y lefel y diogelwch yn gymesur â'r risg oedd yn cael ei chyflwyno gan boblogaeth ifanc.

Disgyblu

- 2.128 Dylid rhoi canllawiau clir i'r staff yn egluro'r meini prawf ar gyfer defnyddio mân adroddiadau a sut y dylid eu defnyddio fel rhan o'r polisi rheoli ymddygiad. (6.33)

Heb ei gyflawni. Nid oedd canllawiau ar sut i ddefnyddio mân adroddiadau wedi cael eu darparu. Prin oedd dealltwriaeth y staff o'r meini prawf ar gyfer defnyddio mân adroddiadau, a phur anaml oeddent yn eu defnyddio.
Ailadroddwn yr argymhelliad hwn.

- 2.129 Dylai'r dogfennau dyfarnu a roddir i'r bobl ifanc fod yn briodol i oedran. (6.34)

Wedi ei gyflawni. Roedd y dogfennau a roddwyd i bobl ifanc cyn dyfarniad wedi cael eu newid i'w gwneud yn briodol i oedran.

- 2.130 Dylid helpu pobl ifanc sy'n wynebu cyhuddiad disgyblu i baratoi eu hachos a rhoi cyfle iddynt drafod unrhyw bryderon gydag eiriolwr annibynnol. (6.35)

Wedi ei gyflawni. Sylwodd y tîm fod y bobl ifanc yn cael cynnig cymorth i baratoi eu hachosion gan staff yr adain. Roedd y bobl ifanc bob amser yn cael cyfle i gael eiriolwr yn bresennol mewn dyfarniad ac roedd dyfarniadau'n aml yn cael eu gohirio i hwyluso hyn.

2.131 Dylai'r cyfarfodydd safoni sicrhau bod cosbau yn gyson a chymesur. (6.36)

Wedi ei gyflawni. Roedd cynrychiolydd o'r uned bob amser yn mynychu'r cyfarfodydd safoni chwarterol ar gyfer y sefydliad cyfan, i sicrhau bod y cosbau o fewn y canllawiau. Ers yr arolygiad diwethaf, roedd yr uwch reolwr diogelu wedi derbyn hyfforddiant priodol ac ef bellach oedd yn cyflawni'r rhan fwyaf o'r dyfarniadau. Roedd ei wybodaeth bersonol am y bobl ifanc yn helpu i sicrhau bod y cosbau'n gyson a chymesur.

2.132 Ni ddylid defnyddio eithrio o addysg fel cosb. (6.37)

Wedi ei gyflawni. Nid oedd y bobl ifanc yn cael eu heithrio o ddysgu fel cosb.

2.133 Dylid defnyddio camerau fideo i ffilmio pob achos o ddefnyddio grym a drefnwyd ymlaen llaw. (6.38)

Wedi ei gyflawni. Dim ond un achos o symud a drefnwyd ymlaen llaw oedd wedi digwydd ers yr arolygiad diwethaf ac roedd hwnnw wedi'i ffilmio. Roedd system wedi'i chyflwyno i wirio dogfennau defnyddio grym i sicrhau eu hansawdd. Roedd pwyslais cryf ar geisio tawelu sefyllfaedd o wrthdaro ac roedd y defnydd o rym yn parhau i fod yn isel.

2.134 Dylai'r gwaith o fonitro gwahanu gynnwys dadansoddi patrymau a thueddiadau. (6.39)

Heb ei gyflawni. Roedd y defnydd o wahanu'n cael ei drafod yn y cyfarfodydd diogelu misol, ond nid oedd patrymau a thueddiadau'n cael eu dadansoddi. Ailadroddwn yr argymhelliad hwn.

2.135 Dylai'r holl gofnodion arsylwi ar gyfer y bobl ifanc a wahanir gael eu gwneud mor aml ag sy'n ofynnol. Dylai'r rheolwyr roi sylw i achosion o ddiffyg cydymffurfio â'r gofynion fel rhan o wirio sicrhau ansawdd. (6.40)

Wedi ei gyflawni. Roedd llywodraethu gwahanu wedi gwella. Roedd amllder yr arsylwi'n cael ei gofnodi mewn log ar ffeil yr adain a oedd yn cael ei wirio'n ddyddiol ac yn wythnosol gan reolwyr yr adain. Dywedodd y rheolwyr wrthym fod amledd ac ansawdd y cyfraniadau ysgrifenedig hyn yn foddhaol yn eu barn nhw, ond nad oeddent yn ddigon manwl yn aml a thynnwyd sylw at ddiffygion rhai staff.

2.136 Dylai'r rheolwyr wirio ansawdd y dogfennau defnyddio grym yn gyson ynghyd â'r fideos o symud pobl ifanc a drefnwyd ymlaen llaw. (6.41)

Wedi ei gyflawni. Roedd ffurflen profforma wedi'i chynhyrchu i asesu sut cafodd pob digwyddiad yn defnyddio grym ei gyflawni. Roedd y ffurflen yn cael ei gwirio a'i llofnodi gan ddau reolwr yn yr uned cyn cael ei phasio i'r tîm archwilio ar y prif safle, a oedd yna'n ei gwirio ymhellach. Pur anaml oedd y bobl ifanc yn cael eu symud drwy drefniant ymlaen llaw, ond roedd hyfforddiant wedi'i drefnu i ddangos i'r staff sut i ddefnyddio'r cyfarpar a sut i symud y bobl ifanc yn briodol.

2.137 Dylai'r cynlluniau rheoli ymddygiad fod yn gynhwysfawr ac yn seiliedig ar asesiad iawn. Dylid gosod targedau clir a darparu adnoddau priodol yn ystod y cyfnod gwahanu i roi sylw i broblemau ac anghenion ac i sicrhau bod targedau'n cael eu cwrdd. (6.42)

Wedi'i gyflawni'n rhannol. Roedd cynlluniau rheoli ymddygiad yn cael eu defnyddio i reoli'r ystod o ymddygiad heriol ond nid oeddent yn cael eu defnyddio'n gyson (gweler hefyd yr adran ar fwlio). Roedd y cynlluniau rheoli ymddygiad a welsom yn seiliedig ar asesiad llawn o anghenion y person ifanc ac yn cynnwys gwybodaeth fanwl am bob agwedd berthnasol ar ei ofal. Roedd targedau priodol yn cael eu gosod oedd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd i fonitro cynnydd. Roedd cynlluniau'n cael eu haddasu lle bo angen i sicrhau bod y targedau'n realistig.

- 2.138 Roedd contract rheoli ymddygiad yn cael ei baratoi ar gyfer pobl ifanc a wahanwyd ar yr adain. Cynllun tymor byr oedd hwn yn cynnwys targedau syml ac yn adlewyrchu dull cymesur o geisio trin ymddygiad anodd.
- 2.139 Roedd pobl ifanc a oedd yn ymddwyn yn anodd iawn weithiau'n cael eu symud dros dro o'r unedau preswyl a'u gwahanu i'r uned gofal iechyd. Nid oedd cynlluniau rheoli ymddygiad bob amser yn cael eu defnyddio ar gyfer y bobl ifanc anoddaf hyn a chyda'r problemau mwyaf cymhleth.

Argymhelliad pellach

- 2.140 Dylid cael meini prawf clir ar ddefnyddio cynlluniau rheoli ymddygiad a system o sicrhau ansawdd i sicrhau y defnyddir hwynt yn briodol a chyson.

- 2.141 Dylid trefnu cyfundrefn lawn ar gyfer y bobl ifanc dros y cyfnod y gwahanir hwynt dros dro, yn amodol ar asesiad risg. (6.43)

Wedi'i gyflawni'n rhannol. Roedd y bobl ifanc a wahanwyd ar yr adain fel arfer yn gallu cymryd rhan mewn cyfundrefn lawn, oni bai fod hyn wedi'i asesu i fod yn cyflwyno risg annerbyniol. Roedd y bobl ifanc a wahanwyd i'r uned gofal iechyd yn dilyn cyfundrefn gaeth iawn ac er eu bod mewn egwyddor yn gallu mynychu gweithgareddau yn amodol ar asesiad risg, ni welsom unrhyw enghreifftiau o hyn yn digwydd.
Ailadroddwn yr argymhelliad hwn.

Arlwyo

- 2.142 Dylai'r trefniadau arlwyo a'r bwydlenni ystyried bod angen hybu bwyta'n iach fel rhan o ffordd iach o fyw. (7.7)

Wedi ei gyflawni. Roedd ffrwythau a salad ffres ar gael i'r bobl ifanc bob dydd. Roedd ymdrechion wedi eu gwneud i weini sglodion yn llai aml a chynnig reis, pasta a thatws pŵb yn eu lle.

- 2.143 Dylai'r rheolwr arlwyo neu aelod o'r adran arlwyo fynychu cyfarfodydd y fforwm cymunedol. (7.8)

Heb ei gyflawni. Pur anaml oedd yr adran arlwyo wedi'i chynrychioli yng nghyfarfodydd y fforwm cymunedol ac nid oedd unrhyw ffordd arall i'r bobl ifanc leisio barn am y bwyd. Yn ein harolwg, dim ond 5% o'r bobl ifanc ddywedodd fod y bwyd yn dda neu'n dda iawn yn erbyn ffigurau cymharol o 26% yn Parc yn 2009 a ffigur cenedlaethol cymharol o 21%.
Ailadroddwn yr argymhelliad hwn.

- 2.144 Dylid annog y staff i fwyta gyda'r bobl ifanc. (7.9)

Wedi ei gyflawni. Roedd digon o fwyd yn cael ei ddarparu adeg bob pryd i'r staff eistedd a bwyta gyda'r bobl ifanc. Ym mhob un o'r prydau bwyd inni arsylwi arnynt, roedd y staff yn aros hyd nes oedd y bobl ifanc wedi cael eu bwyd cyn dewis o'r bwyd oedd ar ôl. Roedd yn well gan rai o'r staff eistedd gyda'r bobl ifanc heb fwyta. Roedd awyrgylch hamddenol ond wedi'i reoli'n briodol adeg prydau bwyd.

Rheolaeth strategol o adsefydlu

2.145 Dylid sefydlu fforwm i fonitro ac adolygu strategaeth adsefydlu'r uned. (8.14)

Wedi ei gyflawni. Roedd gwelliannau sylweddol wedi eu gwneud gyda rheoli adsefydlu. Roedd dadansoddiad da iawn o anghenion wedi'i gwblhau, a oedd yn cynnwys ymgynghori gyda Thimau Troseddwy'r Ifanc allanol. Roedd strategaeth adsefydlu gynhwysfawr ar sail y dadansoddiad o anghenion wedi'i chyhoeddi a phwyllgor wedi'i sefydlu i fwrw trosolwg effeithiol ar weithrediad y strategaeth. Roedd y sefydliad yn holi'r Timau Troseddwy'r Ifanc cymunedol ynghylch canlyniadau adsefydlu'r bobl ifanc yn dilyn eu rhyddhau ac yn holi eu barn hefyd am brofiadau'r bobl ifanc pan oeddent dan glo. Y bwriad oedd bod y wybodaeth yma'n goleuo ymhellach y broses o ddatblygu cymorth cyn-rhyddhau i bobl ifanc yn yr uned.

2.146 Dylai fod gan y bobl ifanc fynediad rheolaidd at gyngor arbenigol ar dai. (8.15)

Heb ei gyflawni. Nid oedd unrhyw arbenigwr tai i roi cyngor i'r bobl ifanc oedd yn yr uned. Roedd gan nifer fach o'r Timau Troseddwy'r Ifanc cymunedol weithwyr tai i roi cymorth, ond roedd dod o hyd i lety addas a chynaliadwy i bobl ifanc wrth adael y ddalfa yn anodd ac yn broblem barhaus. Ar lefel strategol, roedd uwch reolwr diogelu wedi codi'r anhawster yma mewn fforymau allanol, ac o ganlyniad roedd cysylltiadau wedi eu creu gyda chynghorwr tai yn Abertawe a oedd yn ddiweddar wedi cytuno i ddarparu gwasanaeth i'r bobl ifanc yn yr uned. Roedd tîm trefnus o weithwyr achos yn darparu cymorth da beunyddiol i'r bobl ifanc, gan gynnwys cymorth gyda thrafferthion tai. Roedd y gweithwyr achos yn aml yn cyfeirio'r bobl ifanc at y gwasanaeth eiriolaeth am help gyda phroblemau llety.

2.147 Dylai'r bobl ifanc dderbyn gwybodaeth priodol i oedran am wasanaethau iechyd cymunedol wrth adael y sefydliad. (8.16)

Wedi ei gyflawni. Cyn eu rhyddhau, roedd y bobl ifanc yn cael pecyn gwybodaeth priodol i oedran, yn egluro pa wasanaethau iechyd oedd yn y gymuned.

2.148 Dylid darparu mynediad gwell at y gweithgareddau Cyswllt Busnes Addysg i'r bobl ifanc. (8.17)

Wedi ei gyflawni. Roedd gan fwy o bobl ifanc yn awr fynediad at leoliadau gwaith a phrofiad galwedigaethol drwy wneud defnydd effeithiol o ROTL. Roedd deg o bobl ifanc wedi elwa yn 2009 ac, ers dechrau 2010, roedd 15 o bobl ifanc wedi mynychu lleoliadau ROTL. Roedd hyn yn cynnwys nifer fach o bobl ifanc a gafodd y cyfle i fynychu lleoliad o safon uchel mewn ffatri beirianneg leol. Roedd perchennog y cwmni hwn yn gefnogol iawn o'r bobl ifanc ar leoliad ac yn cyfrannu at y byrddau ceisiadau ROTL.

2.149 Dylid rhoi cyngor a chymorth i'r bobl ifanc ar sut i reoli eu harian. (8.18)

Wedi ei gyflawni. Roedd y bobl ifanc yn derbyn cyngor a chyfarwyddyd ar sut i reoli eu harian drwy ymweld ag arbenigwyr o Education Business Dynamics a dilyn modiwlau penodol yn y cwricwlwm addysg.

Cynllunio hyfforddiant a rheoli remand

